Llywodraeth Cymru

Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru

Cam 2 – Mireinio Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar

Cyhoeddi | 20 Mehefin 2019

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient.

Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno ac nid ymgymerir â chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Rhif y gwaith 263184-00

Ove Arup & Partners Ltd
63 St Thomas Street
Bryste BS1 6JZ
Y Deyrnas Unedig
www.arup.com

ARUP

Cynnwys

1 Cyflwyniad 1
1.1 Trosolwg 1
1.2 Dull 1
1.3 Trosolwg o'r adroddiad 3

2 Cefndir a chyd-destun 4
2.1 Cyd-destun polisi presennol 4
2.2 Polisi ar gyfer y dyfodol a chaniatáu 7
2.3 Cefndir: ymchwil cam 1 9

3 Asesiad tirwedd a gweledol 12
3.1 Methodoleg tirwedd a gweledol 12
3.2 Canlyniadau asesiadau tirwedd a gweledol 18

4 Canolfannau poblogaeth 31
4.1 Methodoleg canolfannau poblogaeth 31
4.2 Canlyniadau canolfannau poblogaeth 31

5 Cysylltiad â'r grid 38
5.1 Methodoleg cysylltiad â'r grid 38
5.2 Canlyniadau cysylltiad â'r grid 39

6 Mynediad i gerbydau 41
6.1 Methodoleg mynediad i gerbydau 41
6.2 Canlyniadau mynediad i gerbydau 41

7 Gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau 42
7.1 Methodoleg gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau 42
7.2 Canlyniadau gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau 42

8 Yr amgylchedd hanesyddol 44
8.1 Methodoleg yr amgylchedd hanesyddol 44
8.2 Canlyniadau'r amgylchedd hanesyddol 44

9 Mireinio'r ardaloedd blaenoriaeth 45
9.1 Methodoleg 45
9.2 Targedau ynni adnewyddadwy ac ardaloedd Cam 1 45
9.3 Dadansoddiad o dystiolaeth ar bynciau allweddol 46
9.4 Croeswirio ag Ardaloedd Chwilio Strategol TAN 8 46
9.5 Gweithdai â Llywodraeth Cymru, CNC ac arbenigwyr Arup 47
9.6 Canlyniadau 47

9.7 Ardaloedd eithriedig 53

10 Goblygiadau ac argymhellion 55

10.1 Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 55
10.2 Canllawiau polisi a dylunio 55
10.3 Grid 56
10.4 Offeryn a chynllunio ynni rhanbarthol 56

Atodiadau

Atodiad A
Rhagdybiaethau sylfaenol

Atodiad B
Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio a nodwyd drwy Gam 1

Atodiad C
Tirwedd a gweledol

Atodiad D
Canolfannau poblogaeth

Atodiad E
Cysylltiad â'r grid

Atodiad F
Mynediad i gerbydau

Atodiad G
Gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau

Atodiad H
Yr amgylchedd hanesyddol

Atodiad I
Mireinio'r ardaloedd blaenoriaeth

Atodiad J
Ardaloedd Blaenoriaeth Diwygiedig ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt

OGL © Hawlfraint y Goron WG38684 ISBN digidol 978-1-83876-959-8

1 Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

Comisiynwyd Ove Arup and Partners Ltd. (Arup) gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith i gefnogi nodi Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt i'w cynnwys yn ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ymchwil blaenorol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a gynhaliwyd gan Arup ar ran Llywodraeth Cymru, i nodi cyfyngiadau amrywiol ar ddatblygiadau gwynt a solar ffotofoltäig (PV) ar raddfa fawr ar y tir, ac i fapio'r rhain ledled Cymru. Canlyniad y gwaith Cam 1 hwn oedd nodi 14 o Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio.

Mae'r pecyn gwaith presennol a nodir yn yr adroddiad hwn yn ystyried Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Cam 1 yn fanylach er mwyn mireinio ymhellach yr ardaloedd a nodwyd fel rhai sy'n cynnig y cyfleoedd mwyaf ar gyfer datblygu. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i fireinio'r 14 ardal Cam 1 ac mae'n cyflwyno 15 Ardal Flaenoriaeth wedi'i mireinio ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt (Ardaloedd Blaenoriaeth).

Mae'r dadansoddiad a'r asesiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'u cynnal ar lefel uchel, sy'n briodol o ran gwneud penderfyniadau cenedlaethol. Felly, nid yw'r mapiau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'u cynllunio i gyflwyno cywirdeb ar lefel safleoedd. Dylid eu cyflwyno ar raddfa nad yw'n fwy manwl na 1:250,000.

1.2 Dull

1.2.1 Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'n fanwl yr ymchwil cam 2. Nodir trosolwg o'n dull o ran y ddau gam o ymchwilio a dadansoddi yn

Ffigwr 1 isod.



Ffigwr 1: Trosolwg o ddull yr astudiaeth

1.2.2 Cam 2

Er mwyn mireinio'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Cam 1, comisiynwyd Arup i adolygu'r meini prawf canlynol (fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru):

- Effeithiau ar dirwedd ac effeithiau gweledol
- Canolfannau poblogaeth
- Seilwaith y grid
- Yr amgylchedd hanesyddol
- Mynediad i gerbydau
- Gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau
- Y cyfraniad y gall Ardaloedd Blaenoriaeth ei wneud tuag at dargedau Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Cynhaliwyd astudiaethau desg ar gyfer pob maes pwnc unigol, ochr yn ochr ag ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.

Wedyn, daethpwyd â'r rhain at ei gilydd, ac fe'u trafodwyd â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn datblygu Ardaloedd Blaenoriaeth wedi'u mireinio.

1.3 Trosolwg o'r adroddiad

Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn gosod y gofyniad polisi ar gyfer y gwaith hwn ac yn disgrifio'r gwaith a wnaed yng Ngham 1 i lunio'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio.

Mae Adrannau 3 i 8 yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ymchwilio i effaith pob un o'r meini prawf mireinio ar bob Ardal â Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar, ynghyd â chanlyniadau a mapiau a luniwyd drwy'r gwaith ymchwil hwn.

Mae Adran 9 yn disgrifio'r broses a ddefnyddiwyd i fireinio Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar, yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwil a thrwy ymgynghori ag arbenigwyr pynciau o fewn Arup ac yn allanol. Wedyn, cyflwynir yr Ardaloedd Blaenoriaeth terfynol ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar.

Yn olaf, mae Adran 10 yn disgrifio gweithrediad yr Ardaloedd Blaenoriaeth hyn ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar, ac yn rhoi argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

2 Cefndir a chyd-destun

2.1 Cyd-destun polisi presennol

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, fod argyfwng ar yr hinsawdd yng Nghymru. Fe wnaeth adroddiad Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ym mis Mai 2019[1] yn argymell gostyngiad o 95% ar allyriadau Cymru ym 1990 erbyn 2050[2]. Ym mis Mehefin 2019, nododd Lesley Griffiths uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflwyno targed i Gymru gyflawni dim allyriadau net erbyn 2050. Mae hyn yn dangos awydd ac ymdrech clir yng Nghymru tuag at economi carbon isel a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Rhaid i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 20 mlynedd adlewyrchu'r newidiadau a fydd yn ofynnol ledled Cymru i liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Bydd graddfa'r datblygiad sy'n ofynnol yn arwain at lawer o effeithiau ar y dirwedd, effeithiau gweledol ac effeithiau ehangach a fydd yn sylweddol. Mae angen deall hyn o fewn cyd-destun cytbwys yr angen am ddatgarboneiddio'n gyflym o ran cynhyrchu ynni.

Mae'r adran hon yn nodi'r polisi presennol yng Nghymru sy'n sail i'r gwaith a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae polisi'n esblygu'n gyflym yn y maes hwn; mae'r adran hon yn cyflwyno polisi presennol, ac mae adran 2.2 yn cyflwyno polisi ar gyfer y dyfodol.

2.1.1 Polisi ynni a'r newid yn yr hinsawdd

Ym mis Mehefin 2019, gosododd llywodraeth y DU darged cyfreithiol i'r DU fod yn ddi-garbon net erbyn 2050[3].

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[4] yn nodi bod ynni a'r amgylchedd yn sector â blaenoriaeth i Gymru ac mae'n manylu ar y camau y mae'n rhaid eu cymryd ar draws gwahanol sectorau i ddiogelu adnoddau naturiol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i allyriadau net Cymru fod o leiaf 80% yn is na lefel sylfaenol ddiffiniedig a bod rhaid i weinidogion osod targedau allyriadau interim a chyllidebau carbon er mwyn cyrraedd nod 2050.

Er mwyn cyflawni hyn, sefydlwyd targedau Gweinidogol sydd â'r nodau canlynol:

1. Cymru'n cynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir ganddi o ynni adnewyddadwy erbyn 2030

[1] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, *Net Zero – The UK's contribution to stopping global warming,* mis Mai 2019 https://www.theccc.org.uk/publication/net-zero-the-uks-contribution-to-stopping-global-warming/, *Cyrchwyd ym mis Mai 2019*
[2] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-i-adroddiad-sero-net-y-pwyllgor-ar-newid-hinsawdd, *Cyrchwyd ym mis Mehefin 2019*
[3] https://www.gov.uk/government/news/pm-theresa-may-we-will-end-uk-contribution-to-climate-change-by-2050, *Cyrchwyd ym mis Mehefin 2019*
[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents, *Cyrchwyd ym mis Mehefin 2019*

2. un gigawat o gapasiti trydan adnewyddadwy Cymru wedi'i berchenogi'n lleol erbyn 2030
3. prosiectau ynni adnewyddadwy newydd i fod ag o leiaf elfen o berchenogaeth leol erbyn 2020.

2.1.2 Polisi cynllunio

Mae'r cyd-destun polisi presennol ar gyfer datblygiadau gwynt a solar ar y tir yng Nghymru yn canolbwyntio ar Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 10) ar lefel genedlaethol. Cefnogir hyn gan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8[5] a ddatblygwyd yn 2005 ac a oedd yn adlewyrchu'r dechnoleg a oedd ar gael ar y pryd.

Ar y lefel leol, mae Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) wedi defnyddio proses Asesiad o Ynni Adnewyddadwy i lywio cyfleoedd a thargedau ar gyfer ynni adnewyddadwy, a thrwy'r argraffiad diweddaraf o PCC, gofynnir i awdurdodau lleol osod targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy fel rhan o unrhyw broses adnewyddu CDLl.

Polisi Cynllunio Cymru 10

Cyhoeddwyd PCC Argraffiad 10 ym mis Rhagfyr 2018, ac mae'n sefydlu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer llywio datblygu ledled Cymru. Mae PCC yn alinio'n agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i ffocws ar ddatblygu cynaliadwy yng nghyd-destun llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae PCC yn diffinio datblygu cynaliadwy fel y 'broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant'.

Mae PCC yn amlinellu y dylai Awdurdodau Cynllunio roi pwys mawr ar dargedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r ddogfen bolisi hefyd yn gofyn yn benodol i awdurdodau cynllunio nodi ardaloedd gofodol yn eu cynllun datblygu lle caniateir datblygiadau ynni adnewyddadwy, yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy

Mae TAN 8, a gyhoeddwyd yn 2005, yn rhoi cyngor i ategu'r polisi yn PCC. Mae'r TAN yn nodi saith Ardal Chwilio Strategol lle dylid canolbwyntio datblygiadau gwynt ar y tir ar raddfa fawr yng Nghymru ac mae'n darparu canllawiau pellach mewn perthynas ag ystyriaethau cynllunio defnydd tir ar gyfer ynni adnewyddadwy.

[5] Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: ynni adnewyddadwy (2005) https://gweddill.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan8/?lang=cy, *Adalwyd ym mis Mehefin 2019*

Mewn perthynas ag ynni gwynt ar y tir, mae'r TAN yn cyfeirio datblygiadau gwynt ar y tir ar raddfa fawr i'r Ardaloedd Chwilio Strategol ac mae hefyd yn annog cefnogaeth ar gyfer ynni gwynt ar y tir o fewn safleoedd tir llwyd trefol/ diwydiannol hyd at 25MW.

Mae'r TAN yn annog awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) i asesu'r gofynion lleoliadol manwl ar gyfer lleoli datblygiadau ynni gwynt ar y tir ac i fireinio'r Ardaloedd Chwilio Strategol, lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae'n annog ACLlau i ystyried effaith gronnus cynlluniau bach mewn ardaloedd sydd y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd ac o berimedr cynlluniau ynni gwynt sy'n bodoli neu'r Ardaloedd Chwilio Strategol.

Nid yw'r TAN yn cynnwys llawer iawn o ganllawiau mewn perthynas â datblygiadau solar ac nid yw'n nodi ardaloedd chwilio penodol at y diben hwn gan nad oedd ynni solar ar raddfa fawr yn dechnoleg aeddfed yn y DU pan ddatblygwyd y TAN yn wreiddiol. Mae'r TAN yn amlinellu y dylid cefnogi cynigion ar gyfer systemau solar thermol a solar PV sydd wedi'u dylunio'n briodol, ac eithrio amgylchiadau lle mae'r effaith weledol yn niweidiol iawn i adeilad rhestredig, heneb neu olygfa ardal gadwraeth.

2.1.3 Trefn ganiatáu

Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 drefn ganiatáu newydd/ categori newydd o geisiadau cynllunio, sef Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Mae'r ceisiadau hyn yn cwmpasu prosiectau seilwaith ar raddfa fawr yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol ac fe'u hystyrir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru, yn hytrach nag ACLlau.

Cyflwynwyd y drefn DNS yn dilyn dileu ynni gwynt ar y tir o'r broses Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) y darperir ar ei chyfer yn Neddf Cynllunio 2008, ac yn dilyn datganoli caniatâd ar gyfer ynni i Gymru.

Mae Rheoliadau (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi bod adeiladu, estyn neu addasu gorsaf gynhyrchu yn un o'r datblygiadau cyfansoddol fel a ganlyn:

1. Adeiladu gorsaf gynhyrchu lle disgwylir y bydd yr orsaf gynhyrchu â gallu cynhyrchu gosodedig (ar ôl ei hadeiladu) o fwy na 10 megawat, ond yn achos gorsaf gynhyrchu ynni gwynt nad yw ar y tir, gallu cynhyrchu gosodedig heb fod yn fwy na 350MW.
2. Estyn neu addasu gorsaf gynhyrchu lle mae'r effaith yn cynyddu'r gallu cynhyrchu gosodedig o 10 megawat o leiaf, ond yn achos gorsaf gynhyrchu ynni gwynt nad yw ar y tir, disgwylir iddi fod â chyfanswm gallu cynhyrchu gosodedig heb fod yn fwy na 350MW.

Cynlluniwyd y broses DNS i annog ymgeiswyr cynlluniau perthnasol i ymgymryd ag ymgysylltiad cynnar â'r ACLl perthnasol, cymunedau lleol, ymgyngoreion statudol a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r gwaith cynnar cyn ymgeisio hwn yn ofynnol ar gyfer y ceisiadau cyn iddynt gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w penderfynu. Cynlluniwyd y

drefn i roi mwy o sicrwydd yn y broses gwneud penderfyniadau ar adeg pan oedd ceisiadau ar raddfa fawr yn profi oedi hir yn y broses gynllunio ar lefel leol.

2.1.4 Cyd-destun polisi economaidd

Mae *Rhaglen Lywodraethu*[6] Cymru yn nodi uchelgais Cymru ar gyfer creu mwy o swyddi ac economi gryfach. Mae'n cynnwys:

- *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*[7] sy'n gosod allan sut y bydd y llywodraeth yn darparu mwy o swyddi o ansawdd gwell drwy economi gryfach a thecach, a
- *Ffyniant i Bawb*; sef strategaeth genedlaethol i Gymru sy'n rhoi sylw i gyd-destun hirdymor *Symud Cymru Ymlaen*. Fel rhan o hyn, lluniwyd *Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi* sy'n nodi'r meysydd allweddol ar gyfer buddsoddi ar draws economi Cymru. Mae hyn yn nodi datgarboneiddio fel her fusnes allweddol.

2.2 Polisi ar gyfer y dyfodol a chaniatáu

2.2.1 Nodau a chynnydd

Wrth geisio sicrhau Cymru sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu carbon isel, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nifer o nodau / targedau gweinidogol. Wrth fonitro'r cynnydd presennol, amcangyfrifwyd y cynhyrchwyd 48% o drydan yng Nghymru gan ffynonellau adnewyddadwy yn 2017, ac mae 750MW o gapasiti ynni adnewyddadwy o dan berchenogaeth leol[8].

2.2.2 Ynni a pholisi ar y newid yn yr hinsawdd

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*[9]. Mae hyn yn gosod y sylfeini i Gymru newid i fod yn genedl garbon isel, ac mae'n disgrifio sut mae Cymru'n anelu at gyflawni'r gyllideb garbon gyntaf (2016-2020). Bydd angen llunio cynlluniau dilynol ar gylchred o 5 mlynedd er mwyn cwrdd â thargedau carbon.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i lunio Atlas Ynni, a disgwylir i hwn helpu gyda chynllunio ynni ar lefel ranbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais i gyflymu at fod yn ddi-garbon net erbyn 2050, gan fynd y tu hwnt i argymhelliad Pwyllgor y DU ar y Newid yn

---

[6] Rhaglen Lywodraethu, 2017: https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu *Cyrchwyd: Mehefin 2019*
[7] Symud Cymru Ymlaen, 2016: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf *Cyrchwyd: Mehefin 2019*
[8] Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, 2017: https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/181212-energy-generation-in-wales-2017-cy.pdf *Cyrchwyd: Chwefror 2019*
[9] Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, mis Mawrth 2019 https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/190321-prosperity-for-all-a-low-carbon-wales-cy.pdf *Cyrchwyd: Mehefin 2019*

yr Hinsawdd. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn dod â rheoliadau i'r Cynulliad y flwyddyn nesaf i newid y targed presennol ar gyfer 2050[10].

2.2.3 Polisi cynllunio

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi cynllun datblygu defnydd tir 20 mlynedd ar gyfer Cymru a bydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru (2008). Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ffurfio rhan o'r cynllun statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio a DNS. Cyhoeddir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer ymgynghori yn ystod haf 2019.

Cynlluniau Datblygu Strategol

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol sydd wedi dod i'r amlwg fel cysyniad yn dilyn adborth bod ACLlau unigol wedi'i chael hi'n anodd cynllunio ar gyfer materion mwy strategol, neu fynd i'r afael â'r rhain, ar eu pennau eu hunain neu drwy ddatblygu CDLlau.

Mewn egwyddor, byddai'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn caniatáu i faterion mwy strategol na ddônt i ben ar ffiniau Awdurdodau Lleol (e.e. tai strategol, safleoedd cyflogaeth strategol a chefnogi seilwaith trafnidiaeth a thrydan) gael eu hystyried a'u cynllunio mewn ffordd integredig. Nid yw Deddf Cynllunio (Cymru) yn nodi'r meysydd y dylid paratoi'r Cynlluniau Datblygu Strategol hyn ar eu cyfer, ond yn hytrach, mae'n darparu hyblygrwydd.

2.2.4 Trefn ganiatáu

Cydsyniad Seilwaith Cymru

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru bapur ymgynghori, a oedd yn cynnig newidiadau i gydsynio i ddatblygiad seilwaith yng Nghymru, yn dilyn pwerau newydd a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan *Ddeddf Cymru 2017*[11] ("Deddf 2017"). Cyhoeddwyd ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth ar yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2018.

Mae Deddf 2017 yn nodi diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2007, gan ddatganoli pwerau pellach i Gymru. Yn benodol, mae Deddf 2017 yn datganoli cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol i Weinidogion Cymru ar gyfer:

- Caniatáu gorsafoedd cynhyrchu trydan â gallu cynhyrchu gosodedig hyd at a chan gynnwys 350MW (ac eithrio ynni gwynt ar y tir, sydd eisoes wedi'i

[10] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-i-adroddiad-sero-net-y-pwyllgor-ar-newid-hinsawdd, *Adalwyd ym mis Mehefin 2019*
[11] Deddf Cymru 2017, 2017: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/4/contents/enacted *Adalwyd ym mis Mehefin 2019*

ddatganoli'n llawn), ar y tir ac yn nyfroedd Cymru, yn ogystal â llinellau trydan uwchben cysylltiedig, hyd at a gan gynnwys 132kV sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig,

- Gorchmynion diwygio a grymuso harbyrau, a
- Trwyddedau morol y tu hwnt i ardal y glannau hyd at derfynau Parth Cymru.

Mae Deddf 2017 yn rhoi cydsyniad ar gyfer y seilwaith hwn mewn gwahanol drefnau, sydd wedi arwain at broses gydsynio dameidiog. Mae Llywodraeth Cymru, yn eu hymgynghoriad, yn cydnabod yr angen am 'siop-un-stop' ar gyfer cydsyniad seilwaith yn hytrach na gwahanol drefnau. Mae wedi cynnig Cydsyniad Seilwaith Cymru ar gyfer cydsynio i'r prosiectau hynny sydd newydd eu datganoli, yn ogystal â'i ddefnyddio'n ehangach ar gyfer prosiectau priffyrdd, rheilffyrdd, dŵr a gwastraff.

2.3 Cefndir: ymchwil cam 1

Mae cam cyntaf y gwaith ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi'i grynhoi yn adroddiad mis Mawrth 2019[12] ac roedd yn gofyn am nodi cyfleoedd a chyfyngiadau allweddol ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y tir. Roedd datblygu'r cam cyntaf hwn o waith yn broses ailadroddus ac roedd yn cynnwys mewnbwn gan weithdai ac ymgynghoriadau ymhlith rhanddeiliaid, arbenigwyr Arup, a thîm craidd Llywodraeth Cymru.

Diffinnir cydrannau allweddol y cam cyntaf hwn yn Tabl 1 isod.

Tabl 1: Proses cam 1

Cydran	Disgrifiad
Gweithdai cychwynnol rhanddeiliaid, mis Medi 2018	Cynhaliwyd gweithdai yn Abertawe a Llandudno i gael dealltwriaeth o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd y mae'n rhaid eu hystyried wrth gynhyrchu o dechnolegau gwynt neu solar ar y tir.
Datblygu offeryn a llunio methodoleg f1	Trwy drafodaeth â Llywodraeth Cymru ac ystod eang o randdeiliaid, nodwyd cyfyngiadau naill ai fel rhai sefydlog neu amrywiol. Wedyn, crëwyd offeryn rhyngweithiol i brofi gwahanol gyfuniadau o gyfyngiadau ar yr ardal sydd ar gael i'w datblygu. Os oedd cyfyngiad sefydlog yn bresennol mewn ardal benodol, roedd yr offeryn yn ei nodi fel "ardal o botensial lleiaf" ar gyfer datblygu. Os oedd cyfyngiad amrywiol yn bresennol mewn ardal benodol (ond dim cyfyngiad sefydlog), roedd yr offeryn yn diffinio'r ardal honno fel "ardal o gyfle amrywiol". Diffiniwyd ardaloedd heb gyfyngiadau sefydlog neu amrywiol fel "ardaloedd o gyfle mwyaf". Lluniwyd iteriad cyntaf y fethodoleg i gyd-fynd â'r offeryn – gan nodi

[12] Arup ar gyfer Llywodraeth Cymru, *Asesu potensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir: Adroddiad terfynol,* mis Mawrth 2019

Cydran	Disgrifiad
	camau a rhagdybiaethau allweddol. Ymgynghorwyd â datblygwyr am gyngor ar y galluoedd technolegol diweddaraf ym maes technolegau gwynt a solar er mwyn sicrhau bod cyfrifiadau allbwn ynni o'r ardaloedd o botensial mwyaf a chyfle lleiaf mor gywir â phosibl.
Llunio iteriad o'r offeryn a methodoleg f2	Diweddarwyd yr offeryn a'r fethodoleg gysylltiedig yn dilyn y mewnbwn a ddisgrifir uchod.
Diffinio senarios	Profwyd pedwar cyfuniad gwahanol o gyfyngiadau a byfferau cynyddol amrywiol yn yr offeryn ar gyfer eu cynnwys o bosibl yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
Gweithdai terfynol rhanddeiliaid, mis Rhagfyr 2018	Cynhaliwyd gweithdai yng Nghaerdydd a Llandudno i gyflwyno'r gwaith a wnaed hyd yma. Bu rhanddeiliaid yn beirniadu senarios ar gyfer y cyfyngiadau i hysbysu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
Diffinio opsiynau polisi	Datblygwyd a beirniadwyd yr opsiynau ar gyfer y polisi cynllunio i gyd-fynd â'r senarios.
Nodi 14 Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio a llunio methodoleg derfynol Cam 1	Defnyddiwyd y fethodoleg derfynol a'r rhagdybiaethau allweddol i ddatblygu senario a ffefrir, gan nodi "ardaloedd o botensial lleiaf" (llwyd, "ardal o gyfle amrywiol" (gwyrdd golau, ac "ardaloedd o gyfle mwyaf" (gwyrdd tywyll. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon, ynghyd ag adolygiad lefel uchel o fynediad a grid, ar ddiwedd Cam 1, nodom 14 Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio yng Ngham 2. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y map yn Atodiad B.

Fel yr amlinellwyd yn Tabl 1 uchod, nodwyd yr Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio cychwynnol ar sail cyfyngiadau sefydlog ac amrywiol. Roedd dosbarthiad pob cyfyngiad yn broses ailadroddus yr oedd angen mewnbwn gan randdeiliaid arno, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, gweithredwyr grid a grwpiau amgylcheddol yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfyngiadau sefydlog ac amrywiol terfynol wedi'u nodi yn Tabl 2 a Tabl 3.

Tabl 2: Cyfyngiadau sefydlog

Cyfyngiadau sefydlog	Gwynt/ Solar
Ramsar	Y ddau
Safleoedd Treftadaeth y Byd	Y ddau
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	Y ddau
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	Y ddau
Ymgeiswyr am Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	Y ddau

Cyfyngiadau sefydlog	Gwynt/ Solar
Coetir Hynafol	Y ddau
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)	Y ddau
Parciau Cenedlaethol	Y ddau
Ardaloedd Cadwraeth	Y ddau
Systemau Cyfathrebu a nodir gan NATS	Y ddau
Meysydd Awyr a Rhedfeydd	Y ddau
Rhanbarthau Trefol	Y ddau

Tabl 3: Cyfyngiadau amrywiol

Cyfyngiadau amrywiol	Gwynt/ Solar
Pob Dyfrffordd Fewndirol	Gwynt
Afonydd a chamlesi	Solar
Coetir	Y ddau
Mawn sy'n ddyfnach na 45cm	Y ddau
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	Y ddau
Categorïau Tir Amaethyddol 1, 2	Y ddau
Gwarchodfa Natur Genedlaethol	Y ddau
LANDMAP Gweledol Swynhwyraidd: Uchel, Eithriadol	Y ddau
Mynediad Agored	Y ddau
Tirwedd Hanesyddol	Y ddau
Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol	Y ddau
Geoparciau – Fforest Fawr	Y ddau
Biosffer UNESCO	Y ddau
Datblygiadau Mawr a Neilltuwyd	Y ddau
Cymhorthion Llywio a Chyfathrebu Tir i Awyr NATS	Gwynt

3 Asesiad tirwedd a gweledol

3.1 Methodoleg tirwedd a gweledol

Bu'r gwaith Cam 1[13] yn ystyried tirweddau dynodedig cenedlaethol (h.y. Parciau Cenedlaethol ac AHNE) fel cyfyngiadau sefydlog ar ddatblygu datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar ar raddfa fawr a chafodd y dynodiadau hyn eu heithrio o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio a nodwyd yng ngham 1. Roedd y rhain yn ymddangos ar y mapiau cam 1 fel *ardaloedd o gyfle lleiaf*.

Ystyriwyd bod ardaloedd agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP â gwerthusiad cyffredinol Eithriadol neu Uchel, a Thirweddau Hanesyddol, yn gyfyngiadau amrywiol. Roedd y rhain yn ymddangos ar y mapiau cam 1 fel *ardaloedd o gyfle amrywiol*.

Roedd yr Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio a nodwyd yng ngham 1 yn adeiladu ar y categorïau hyn, gan ganolbwyntio ar yr *ardaloedd o gyfle mwyaf*, lle nad oedd unrhyw gyfyngiadau'n bresennol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC10) yn nodi bod gan awdurdodau cynllunio ddyletswydd statudol i ystyried dibenion Parciau Cenedlaethol ac AHNE, a bod y ddyletswydd hon yn berthnasol i bob gweithgaredd sy'n effeithio ar y dynodiadau hyn, p'un ai yw'r gweithgareddau hynny'n gorwedd o fewn, neu yng nghyd-destun, y ardaloedd dynodedig. Fel y cyfryw, mae'r cam dilynol hwn o waith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn ceisio darparu sylfaen o wybodaeth i helpu i fireinio ffiniau'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio er mwyn lleihau'r effeithiau ar osodiad tirweddau dynodedig cenedlaethol yn ogystal â lleihau'r effeithiau ar y tirweddau mwyaf sensitif ledled Cymru.

Gwnaed y gwaith hwn mewn tri cham bras:

- Ystyried lleoliad gweledol tirweddau dynodedig cenedlaethol
- Defnyddio LANDMAP i ystyried sensitifrwydd posibl tirweddau
- Adolygiad o astudiaethau sensitifrwydd a chapasiti a gynhaliwyd eisoes.

3.1.1 Lleoliad gweledol tirweddau dynodedig cenedlaethol

Mae ffocws y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar ddatblygiadau ynni gwynt mwy o faint, o ran uchder a nifer y tyrbinau, a datblygiadau ynni solar mwy o faint, felly ystyriwyd y rhyngweledded rhwng sylwedyddion yn y tirweddau dynodedig cenedlaethol a thyrbinau gwynt hyd at 150m a hyd at 250m o uchder at flaen y llafn yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio. Mae tyrbinau yn yr ystod uchder hon yn cynrychioli'r tyrbinau mwyaf sydd ar gael ar hyn o bryd neu sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ynni gwynt ar y tir, ac fel y cyfryw, ystyrir eu bod yn cynrychioli'r senario uchafswm uchder o ran meintiau tyrbinau sy'n debygol o ymddangos mewn ceisiadau.

[13] Arup ar gyfer Llywodraeth Cymru, *ibid,* mis Mawrth 2019

Gwnaed y gwaith ar ryngweledded mewn dau gam:

- Yn gyntaf, diffiniwyd yr ardaloedd astudiaeth weledol y tu allan i dirweddau dynodedig cenedlaethol ar gyfer tyrbinau hyd at 150m a hyd at 250m.
- Yn ail, gwnaed gwaith modelu rhyngweledded GIS ar gyfer y rhannau o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio a oedd wedi'u lleoli o fewn yr ardaloedd astudiaeth weledded.

Cafodd Solar PV ei eithrio o'r asesiad rhyngweledded gan fod llawer o newidynnau gan gynnwys cyfeiriadedd, ongl llethr, deunyddiau, maint y datblygiad, a sgrinio gan lystyfiant y mae angen eu hystyried wrth ystyried gweledded datblygiadau ynni solar.

3.1.1.1 Ardaloedd astudiaeth weledol

Mae arwyddocâd tebygol arferion gorau mewn perthynas ag effaith, fel yr amlinellir yn "Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment"[14] 3ydd Argraffiad (GLVIA3), yn gofyn am gydbwyso barnau ar sensitifrwydd derbynyddion a maint y newid (effaith). Nid yw GLVIA3 yn rhagnodol o ran nodi lefel arwyddocâd effaith sy'n arwain at effaith sylweddol at ddibenion Asesu'r Effaith Amgylcheddol. Felly, mae ymarferwyr sy'n ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Dirwedd ac Effaith Weledol yn nodi trothwyon gwahanol ar gyfer nodi effeithiau sylweddol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae newid cymedrol neu uwch ar gyfer derbynyddion sensitif yn golygu effaith sylweddol.

Mae *Seascape and visual sensitivity to offshore wind farms in Wales: Strategic assessment and guidance Stage 1 – Ready reckoner of visual effects related to turbine size*[15] Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ystyried y berthynas rhwng pellter rhwng sylwedydd a fferm wynt, ac uchder tyrbinau. Defnyddiwyd meintiau'r newidiadau canlyniadol i ffermydd gwynt ar y môr i nodi'r ardaloedd astudiaeth weledol ar gyfer tyrbinau hyd at 150m a hyd at 250m.

Cydnabyddir bod cyfyngiadau penodol o ran defnyddio adroddiad *Ready reckoner of visual effects related to turbine size* CNC i nodi ardaloedd astudiaeth weledol. Er enghraifft, roedd nifer yr Asesiadau o'r Effaith ar Forlun, Tirwedd ac Effaith Weledol a ddefnyddiwyd i lywio'r adroddiad yn fach oherwydd diffyg argaeledd asesiadau perthnasol o'r fath. Fodd bynnag, o ystyried natur strategol yr astudiaeth hon a'r diffyg ymchwil arall sydd ar gael yn hawdd, ystyrir bod y defnydd o'r *Ready reckoner* yn dderbyniol.

Mae'r ardaloedd astudiaeth weledol wedi canolbwyntio ar yr ystod o bellteroedd sy'n gysylltiedig ag uchder tyrbinau y dangoswyd eu bod yn arwain at effeithiau canolig neu uwch, gweler Ffigwr 2: Pellteroedd lle ceir effaith weledol ganolig

[14] Y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (2013) "Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment" 3ydd Argraffiad
[15] White, S, Michaels, S, a King, H (2019) "Seascape and visual sensitivity to offshore wind farms in Wales: Strategic assessment and guidance. Stage 1 - Ready reckoner of visual effects related to turbine size." Adroddiad a Gomisiynwyd ar gyfer "Evidence Series, Report Number 315" CNC.

gyfartalog ar gyfer tyrbinau o uchderau gwahanol. Ffynhonnell: Adroddiad a Gomisiynwyd ar gyfer "Evidence Series, Report Number 315" CNC15.

.



Ffigwr 2: Pellteroedd lle ceir effaith weledol ganolig gyfartalog ar gyfer tyrbinau o uchderau gwahanol. Ffynhonnell: Adroddiad a Gomisiynwyd ar gyfer "Evidence Series, Report Number 315" CNC[15].

Cafodd yr ardaloedd astudiaeth weledol ar gyfer tyrbinau hyd at 150m a 250m eu nodi drwy ryngosod rhwng yr ystod o uchderau tyrbinau a roddir yn adroddiad *Stage 1 ready reckoner* CNC[15], sy'n rhoi:

- clustogfa o 15km (wedi'i dalgrynnu i fyny o 14.75km) ar gyfer tyrbinau hyd at 150m.
- 24km ar gyfer tyrbinau hyd at 250m.

Defnyddiwyd yr ardaloedd astudiaeth weledol hyn ar gyfer tyrbinau 150m a 250m ar gyfer pob tirwedd ddynodedig genedlaethol yng Nghymru. Yn ogystal, defnyddiwyd yr ardaloedd astudiaeth weledol ar gyfer y tirweddau dynodedig cenedlaethol hynny yn Lloegr lle byddai'r ardaloedd astudiaeth weledol yn ymestyn i Gymru.

3.1.1.2 Modelu rhyngwelededd

Mae modelu llinellau gweledigaeth yn ArcGIS wedi cael ei ddefnyddio i sefydlu maint posibl gwelededd tyrbinau ar draws y tirweddau dynodedig cenedlaethol a fyddai'n codi o ganlyniad i dyrbinau wedi'u lleoli o fewn yr ardaloedd astudiaeth weledol.

Mae modelu llinellau gweledigaeth yn ystyried gwelededd rhwng dau bwynt – sef sylwedydd (yn yr achos hwn, lleoliad o fewn tirwedd ddynodedig genedlaethol) a tharged (yn yr achos hwn, safle tyrbin o fewn yr ardal astudiaeth weledol). Priodolwyd pwyntiau arsylwi a phwyntiau targed ag uchder i adlewyrchu uchder llygaid sylwedydd (sef 1.6m uwchben lefel y ddaear) ac uchder targed i gynrychioli'r senarios uchafswm uchder ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar

raddfa fawr. Mae'r modelu llinellau gwelediad yn nodi p'un ai yw'r targed yn weladwy neu'n guddiedig y tu ôl i dopograffi o'r pwynt arsylwi.

Defnyddiwyd dull grid 500m x 500m ar gyfer lleoli pwyntiau arsylwi o fewn y tirweddau dynodedig cenedlaethol, a phwyntiau targed, yn cynrychioli tyrbinau, o fewn yr ardaloedd astudiaeth weledol.

Mae pob sgwâr ar y grid o fewn y tirweddau dynodedig cenedlaethol yn cynnwys pwynt arsylwi i gynrychioli sylwedyddion o fewn y tirweddau hyn.

Mae'r sgwariau grid o fewn yr ardal astudiaeth weledol yn cynnwys pwyntiau a briodolwyd ag uchder i gynrychioli uchafswm uchder tyrbin o naill ai 150m neu 250m uwchlaw lefel bresennol y ddaear, yn dibynnu ar ba senario oedd yn cael ei ystyried. Defnyddiwyd y modelu llinellau gwelediad i gyfrifo, ar gyfer pob pwynt arsylwi o fewn tirwedd ddynodedig genedlaethol, p'un ai a fyddai pob tyrbin unigol, yn achos tyrbinau 150m a 250m o uchder, yn weladwy o fewn yr ardal astudiaeth weledol gyfatebol.



Ffigwr 3: Y broses o fapio rhyngweledegd

3.1.2 LANDMAP

Mae LANDMAP yn adnodd tirwedd Cymru gyfan lle caiff nodweddion a priodweddau tirwedd a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata sy'n genedlaethol gyson. Mae'n darparu llinell sylfaen gynhwysfawr o wybodaeth amgylcheddol, weledol, ddiwylliannol a threftadaeth i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau cynaliadwy ar amrywiaeth o lefelau o raddfa leol i raddfa genedlaethol tra'n sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Mae LANDMAP yn rhannu Cymru'n ardaloedd agwedd daearyddol arwahanol, ac mae'n ystyried y rhain o fewn cyfres o bum haen:

- Tirweddau Daearegol
- Cynefinoedd Tirwedd

- Gweledol a Synhwyraidd
- Tirweddau Hanesyddol
- Tirweddau Diwylliannol.

O fewn pob haen, rhoddir gwerthusiadau penodol i ffactorau sy'n ymwneud ag is-bwnc yr haen, a rhoddir gwerthusiad cyffredinol hefyd ar gyfer pob pwnc.

Roedd yr Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio a nodwyd yn y gwaith Cam 1 (gweler Atodiad B) yn gyffredinol yn eithrio tir a nodwyd fel tir Eithriadol neu Uchel yn y gwerthusiad cyffredinol o haen agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP.

Er mwyn helpu i fireinio'r Ardaloedd Blaenoriaeth, er nad yw gwerthusiadau LANDMAP yn eu hunain yn cynrychioli sensitifrwydd tirwedd i fath arbennig o ddatblygiad, ystyriwyd y gallai adolygiad lefel uchel pellach o haenau agwedd LANDMAP helpu i nodi ardaloedd o fewn yr Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio sy'n cynnwys nodweddion sy'n debygol o ddangos sensitifrwydd uwch i ddatblygiad.

Cynhaliwyd adolygiad lefel uchel o'r gwerthusiadau cyffredinol Eithriadol ac Uchel ar gyfer yr haenau agwedd Daearegol, Cynefinoedd a Thirwedd Hanesyddol mewn perthynas â'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio er mwyn deall sut y gellir defnyddio'r elfennau hyn i fireinio'r Ardaloedd Blaenoriaeth. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r gwerthusiadau 'ansawdd golygfaol' a 'chymeriad' yn yr haen Weledol a Synhwyraidd lle mae'r gwerthusiad cyffredinol yn Gymedrol.

Ni ystyriwyd yr haen agwedd Dirwedd Ddiwylliannol yn y gwaith mireinio gan y daw'r mwyafrif o dir yng Nghymru o dan y categorïau gwerthuso cyffredinol Uchel neu Eithriadol.

3.1.3 Sensitifrwydd

Er mwyn helpu i osgoi cynnwys y tirweddau mwyaf sensitif yn ystod y gwaith o fireinio'r Ardaloedd Blaenoriaeth, cynhaliwyd adolygiad o'r asesiadau sensitifrwydd a chapasiti tirwedd presennol sydd ar gael yng Nghymru.

Nid oes asesiad sensitifrwydd Cymru gyfan yn bodoli ar gyfer datblygiadau ynni gwynt neu ynni solar. Fel y cyfryw, cynhaliwyd adolygiad o ba ACLlau yng Nghymru (ac eithrio Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, gan na chynigir datblygiadau ynni gwynt neu ynni solar ar raddfa fawr yn yr ardaloedd hyn) sydd wedi paratoi a chyhoeddi astudiaethau sensitifrwydd a'r hyn y mae'r astudiaethau wedi'i ystyried.

Yn ogystal â hyn, cyhaliwyd adolygiad i weld a oedd ACLlau wedi cynnal Asesiadau Ynni Adnewyddwy a ph'un ai oedd yr astudiaethau hyn yn ystyried sensitifrwydd tirwedd.

3.2 Canlyniadau asesiadau tirwedd a gweledol

Amlinellir y canlyniadau o bob un o dri cham y gwaith adolygu tirwedd a gweledol isod. Mae allbynnau'r gwaith hwn wedi cael eu hystyried ar y cyd â'r cyfyngiadau eraill a nodwyd yn yr adroddiad i fireinio ymhellach yr ardaloedd blaenoriaeth, gweler adran 9.

3.2.1 Gosodiad gweledol tirweddau dynodedig cenedlaethol

3.2.1.1 Ardaloedd astudiaeth weledol

Ar gyfer pob tirwedd ddynodedig genedlaethol, mae maint yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar a ddaw o fewn yr ardal astudiaeth weledol berthnasol wedi'i nodi gan ddefnyddio GIS, gweler map 3.1 yn Atodiad C a throsodd.

Defnyddiwyd yr ardaloedd astudiaeth weledol â ffocws hyn i lywio'r gwaith rhyngwelededd a ddisgrifir yn adrannau 3.1.1.2 a 3.2.1.2.

A3

30/04/2019 13:52:25



Eglurhad

- Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Drafft
- Parc Cenedlaethol
- AHNE
- Parc Cenedlaethol +15km
- Parc Cenedlaethol +24km
- AHNE +15km
- AHNE +24km

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-03-25	FH	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
((Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727

Cleient
Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith
Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Metrau
0 10,000 20,000 40,000

Maint Clustogfeydd 15km a 24km AHNE a Pharciau Cenedlaethol

Graddfa ar A3
1:840,000

Rhif y gwaith
263184-00

Statws y Lluniad
I'w Gyhoeddi

Rhif y Lluniad
3.1

Cyhoeddi
F1

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\LocationsOfVisibilityAnalysis.mxd

© Arup

3.2.1.2 Modelu Rhyngweledd

Mae cyfres o fapiau ar gyfer gweledd tyrbinau 150m a 250m wedi'u paratoi ar gyfer pob un o'r tirweddau dynodedig yng Nghymru yn ogystal â'r rhai sydd yn Lloegr o fewn pellter priodol yr ardal astudiaeth weledol, gweler Atodiad C (mapiau 3.2-3.53.

Mae'r mapiau hyn yn dangos maint y gweledd ar draws tirwedd ddynodedig genedlaethol y byddai tyrbin ar bob safle targed o fewn yr ardal astudiaeth weledol yn ei achosi. Er mwyn gallu cymharu maint y gweledd o ganlyniad i bob tyrbin i helpu i lywio'r gwaith mireinio, ystyriwyd maint y gweledd o fewn ystod y bandiau canrannol canlynol:

- 0% - lle na fyddai tyrbin ar safle targed penodol yn creu unrhyw weledd ar draws tirwedd ddynodedig genedlaethol;
- 1-25% - lle byddai tyrbin ar safle targed penodol yn creu unrhyw weledd ar draws 1-25% o dirwedd ddynodedig genedlaethol;
- 26-50% - lle byddai tyrbin ar safle targed penodol yn creu unrhyw weledd ar draws 26-50% o dirwedd ddynodedig genedlaethol;
- 51-75% - lle byddai tyrbin ar safle targed penodol yn creu unrhyw weledd ar draws 51-75% o dirwedd ddynodedig genedlaethol; a
- 76-100% - lle byddai tyrbin ar safle targed penodol yn creu unrhyw weledd ar draws 76-100% o dirwedd ddynodedig genedlaethol;

Mae'r mapiau rhyngweledd, gweler Atodiad C, yn dangos y byddai tyrbinau hyd at 250m yn weladwy ar draws mwy o'r dirwedd ddynodedig na thyrbinau hyd at 150m.

Mae maint y gweledd ym mhob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio yn amrywio ar draws y flaenoriaeth. Er enghraifft, mae Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 1 yn profi lefelau uchel o weledd o dyrbinau 150m a 250m ar draws AHNE Ynys Môn, gweler map 3.2 a 3.25 drosodd. Mae rhan o Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 10 yn arwain at weledd o 25% neu lai[16] ar draws Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyda gweddill yr Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio yn arwain at ddim gweledd neu weledd wedi'i leoli y tu allan i'r ardal astudiaeth weledol, gweler mapiau 3.27 a 3.42 drosodd.

Byddai mireinio'r ardaloedd blaenoriaeth drafft i'r graddau na fyddai unrhyw dyrbinau o fewn yr ardaloedd blaenoriaeth wedi'u mireinio yn weladwy o dirweddau dynodedig cenedlaethol yn lleihau arwynebedd yr ardaloedd blaenoriaeth i'r fath raddau fel y byddai'r ardaloedd blaenoriaeth, o'u hystyried ar y cyd â chyfyngiadau eraill, yn annhebygol o gyflawni targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

[16] h.y. mae tyrbinau'n weledol o 25% neu lai o'r Parc Cenedlaethol.

A3

30/04/2019 10:49:04



Eglurhad

- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
- Parc Cenedlaethol
- Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio

Canran y Parc Cenedlaethol / AHNE yr Effeithir Arno

- 0%
- 1% - 25%
- 25% - 50%
- 50% - 75%
- 75% - 99%
- 100%

Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-04-29	FH	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727

Metrau
0 3,150 6,300 12,600

Cleient

Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith

Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Rhyngweledded – 150m - AHNE Ynys Môn Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 1

Graddfa ar A3

1:250,000

Rhif y gwaith	Statws y Lluniad
263184-00	**I'w Gyhoeddi**

Rhif y Lluniad	Cyhoeddi
3.2	**F1**

\\globaleurope\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\PARE 1 Visibility.mxd

© Arup

A3

30/04/2019 10:49:56



Eglurhad

- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
- Parc Cenedlaethol
- Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio

Canran y Parc Cenedlaethol / AHNE yr Effeithir Arno

- 0%
- 1% - 25%
- 25% - 50%
- 50% - 75%
- 75% - 99%
- 100%

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2018

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-04-29	FH	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727

Metrau
0 3,150 6,300 12,600

Cleient

Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith

Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Rhyngwelededd – 250m - AHNE Ynys Môn Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 1

Graddfa ar A3

1:250,000

Rhif y gwaith

263184-00

Rhif y Lluniad

3.25

Cyhoeddi

F1

\\globaleurope\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\PARE 1 Visibility.mxd

© Arup

A3

30/04/2019 09:28:18



Eglurhad

- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
- Parc Cenedlaethol
- Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio

Canran y Parc Cenedlaethol / AHNE yr Effeithir Arno

- 0%
- 1% - 25%
- 25% - 50%
- 50% - 75%
- 75% - 99%
- 100%

Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018

F1	2019-04-30	FH	CE	AC
Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727

Metrau
0 3,150 6,300 12,600

Cleient
Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith
Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Rhyngwelededd – 150m
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 1

Graddfa ar A3
1:250,000

263184-00

Statws y Lluniad

Rhif y Lluniad
3.17

Cyhoeddi
F1

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\PARE 10 Visibility.mxd

© Arup

A3

30/04/2019 09:27:53



Eglurhad

- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
- Parc Cenedlaethol
- Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio

Canran y Parc Cenedlaethol / AHNE yr Effeithir Arno

- 0%
- 1% - 25%
- 25% - 50%
- 50% - 75%
- 75% - 99%
- 100%

Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018

F1	2019-04-30	FH	CE	AC
Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727

Metrau
0 3,150 6,300 12,600

Cleient

Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith

Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Rhyngwelededd – 250m
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio

Graddfa ar A3
1:250,000

Rhif y gwaith	Statws y Lluniad
263184-00	I'w Gyhoeddi

Rhif y Lluniad	Cyhoeddi
3.42	F1

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\PARE 10 Visibility.mxd

© Arup

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireino

Dylid mireinio Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar er mwyn osgoi rhannau o'r ardaloedd astudiaeth weledol o fewn yr ardaloedd blaenoriaeth a fyddai'n arwain at y lefelau mwyaf o weledded, h.y. lleoliadau sy'n rhoi gweledded yn y band gweledded 26-50% ac uwch. Yn ogystal, argymhellir datblygu canllawiau dylunio i leihau effeithiau gweledol ar rannau mwyaf sensitif y tirweddau dynodedig cenedlaethol, lle bynnag y bo modd.

Nodir y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i fireinio ardaloedd ar gyfer ynni gwynt. Gallai ynni solar fod yn addas yn yr ardaloedd hyn.

3.2.2 LANDMAP

Ceir cyfres o fapiau yn Atodiad C (mapiau 3.54-3.57) sy'n dangos y berthynas rhwng yr Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio a'r haenau LANDMAP. Mae'r mapiau hyn yn dangos y graddau amrywiol o gyfleoedd ym mhob un o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio ar gyfer pob un o'r pedair haen agwedd a ystyrir:

- Mae'r haen agwedd Dirwedd Ddaearegol yn gorgyffwrdd i raddau helaeth ag Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 2 gydag ardaloedd agwedd â gwerthusiad cyffredinol Uchel neu Eithriadol, gweler map 3.54.
- Mae'r haen agwedd Gynefinoedd Tirwedd yn gorgyffwrdd yn sylweddol â thair o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio (Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 8, 9 a 13) gydag ardaloedd agwedd a nodir â gwerthusiad cyffredinol Uchel neu Eithriadol, gweler map 3.55. Yn ogystal, mae gan Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 14 ddosbarthiad gwasgaredig o ardaloedd agwedd a nodir â gwerthusiad cyffredinol Uchel.
- Yn gyffredinol, mae'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio yn eithrio tir a nodir yn ardaloedd Eithriadol neu Uchel yn y gwerthusiad cyffredinol o haen agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP, gweler map 3.56. O fewn yr haen agwedd Weledol a Synhwyraidd, yn yr ardaloedd agwedd â gwerthusiad 'ansawdd golygfaol' a 'chymeriad' a nodir yn rhai Uchel neu Eithriadol lle mae'r gwerthusiad cyffredinol yn Gymedrol, ceir gorgyffwrdd cyfyngedig â'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio.
- Mae'r haen agwedd Dirwedd Hanesyddol yn cyflwyno graddfa nodedig o orgyffwrdd â'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio, gydag 11 o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio yn cynnwys o leiaf 50% o ardaloedd agwedd a nodir â gwerthusiad cyffredinol Uchel neu Eithriadol, gweler map 3.57.

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireino

O ystyried maint yr hyn a gynhwysir yn LANDMAP, dylid defnyddio haenau LANDMAP fel cyfeiriad eilaidd wrth fireinio, fel nad yw'n gyrru newidiadau cychwynnol ond yn cael ei ddefnyddio fel haen dystiolaeth ychwanegol lle mae penderfyniadau anodd i'w gwneud.

A3

30/04/2019 13:43:28



Eglurhad

Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Drafft LANDMAP Tirwedd Ddaearegol

Uchel

Eithriadol

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-04-25	OS	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727
www.arup.com

Cleient
Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith
Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Metrau
0 8,750 17,500 35,000

LANDMAP Geological Landscape

Graddfa ar A3
1:750,000

Rhif y gwaith	Statws y Lluniad
263184	**I'w Gyhoeddi**

Rhif y Lluniad	Cyhoeddi
3.54	**F1**

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\LANDMAP_OVERALL.mxd

© Arup

A3

30/04/2019 13:43:13



Eglurhad

Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Drafft LANDMAP Tirwedd Ddaearegol

Uchel

Eithriadol

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-04-25	OS	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727
www.arup.com

Cleient

Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith

Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Metres

0 8,750 17,500 35,000

LANDMAP Cynefinoedd Tirwedd

Graddfa ar A3

1:750,000

Rhif y gwaith	Statws y Lluniad	Cyhoeddi
263184	**I'w Gyhoeddi**	**F1**

Rhif y Lluniad

3.55

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\LANDMAP_OVERALL.mxd

© Arup

A3

30/04/2019 13:43:40



Eglurhad

- Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Drafft
- LANDMAP Gweledol a Synhwyraidd
  - Uchel
  - Eithriadol
- LANDMAP Gweledol a Synhwyraidd - Cymeriad
  - Uchel
  - Eithriadol
- LANDMAP Gweledol a Synhwyraidd – Ansawdd Golygfaol
  - Uchel
  - Eithriadol

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-04-25	OS	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727
www.arup.com

Cleient
Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith
Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Metrau
0 8,750 17,500 35,000

LANDMAP Gweledol a Synhwyraidd

Graddfa ar A3
1:750,000

Rhif y gwaith	Statws y Lluniad	Cyhoeddi
263184	**I'w Gyhoeddi**	**F1**

Rhif y Lluniad
3.56

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\LANDMAP_OVERALL.mxd

© Arup

A3

30/04/2019 13:44:06



Eglurhad

Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Drafft LANDMAP Tirwedd Ddaearegol

Uchel

Eithriadol

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-04-25	OS	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727
www.arup.com

Cleient
Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith
Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Metrau
0 8,750 17,500 35,000

LANDMAP Tirwedd Hanesyddol

Graddfa ar A3
1:750,000

Rhif y gwaith
263184

Statws y Lluniad
I'w Gyhoeddi

Rhif y Lluniad
3.57

Cyhoeddi
F1

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\LANDMAP_OVERALL.mxd

© Arup

3.2.3 Sensitifrwydd

Ceir crynodeb yn Atodiad C o ba ACLlau sydd wedi paratoi astudiaethau sensitifrwydd a'r hyn y maent wedi'i ystyried yn eu hastudiaethau. Yn gyffredinol, o'r 22 ACLl (ac eithrio Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) yng Nghymru, mae 12 ACLl wedi cyhoeddi astudiaethau sensitifrwydd tirwedd sydd ar gael ar eu gwefannau, ac mae gan un ACLl, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, astudiaethau ar wahân ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar.

Mae wyth o'r astudiaethau a gyhoeddwyd yn ystyried ynni gwynt yn unig, mae tair yn ystyried ynni gwynt ac ynni PV solar, mae un yn ystyried ynni PV solar yn unig, ac mae un yn ystyried sensitifrwydd yn gyffredinol.

Lle yr ystyriwyd ynni gwynt, yn y rhan fwyaf o achosion, rhagdybir nad ystyriwyd datblygiadau ynni gwynt sy'n fwy na graddfa benodol, gan nad yw datblygiadau uwchlaw'r trothwy hwn yn addas ar gyfer yr ardal, a dylent fod o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol fel y nodir yn TAN 8.

Ceir crynodeb yn Atodiad C o ba ACLlau sydd wedi paratoi Asesiadau Ynni Adnewyddadwy a'r hyn y maent wedi'i ystyried yn eu hastudiaethau.

Nid yw pob ACLl wedi paratoi adroddiad Asesiad Ynni Adnewyddadwy neu adroddiad tebyg sy'n ystyried lleoliadau neu gapasiti'r ACLl sydd ar gael ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy. O'r 22 ACLl, mae 17 ACLl wedi cyhoeddi Asesiad Ynni Adnewyddadwy neu astudiaethau tebyg. O'r rhain, dim ond un, sef yr Atodiad i'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sy'n ystyried sensitifrwydd tirwedd wrth nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt neu ynni solar.

Mae angen bod yn ofalus dros ben wrth ddefnyddio'r astudiaethau sensitifrwydd neu'r wybodaeth am sensitifrwydd mewn Asesiadau Ynni Adnewyddadwy i lywio mireinio'r ardaloedd blaenoriaeth drafft. Er enghraifft, lle mae Ardal Flaenoriaeth ddrafft ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn ymestyn ar draws dau ACLl neu fwy, ond nid yw pob un ohonynt wedi cynnal astudiaethau sensitifrwydd, os caiff tir ei eithrio gan ACLlau sydd wedi cynnal astudiaethau sensitifrwydd oherwydd tirweddau sensitif iawn, gall yr Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Haul ffocysu'r ffin ar yr ACLl nad yw wedi cynnal asesiad sensitifrwydd a gall y tir o fewn y ffin ACLl hon fod yn sensitif iawn hefyd ond nid oes astudiaeth ar gael i brofi hynny.

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireinio

Er y cydnabyddir pwysigrwydd astudiaethau o'r fath, mae'r sylw cyfyngedig ledled Cymru a'r dulliau ychydig yn wahanol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaethau hyn wedi golygu na ddefnyddiwyd yr astudiaethau hyn ymhellach wrth ystyried mireinio'r ardaloedd blaenoriaeth.

4 Canolfannau poblogaeth

4.1 Methodoleg canolfannau poblogaeth

Mae Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'u mapio yn erbyn canolfannau poblogaeth fel y dangosir yn Atodiad D.

Er mwyn deall yn well sut y dylid mireinio Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio ar sail canolfannau poblogaeth cyfagos, cynhaliwyd ymchwil i effeithiau agosrwydd canolfannau poblogaeth yn y meysydd canlynol:

1. Cyfleoedd ar gyfer cytundebau prynu pŵer neu drefniadau cyflenwi uniongyrchol;
2. Cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad a pherchenogaeth gymunedol; ac
3. Effaith ar golli ynni o bellteroedd llinellau uwchben.

Yn ogystal, rydym wedi ystyried y dull a ddefnyddir mewn polisi cynllunio mewn mannau eraill o ran agosrwydd ynni adnewyddadwy at ganolfannau lle y ceir galw.

4.2 Canlyniadau canolfannau poblogaeth

4.2.1 Y berthynas rhwng Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar a chanolfannau poblogaeth

Mae Atodiad D yn dangos map o ganolfannau poblogaeth ochr yn ochr â'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio. Yn ofodol, mae'n glir bod gan yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar y potensial mwyaf i effeithio ar, neu fod o fudd i, ganolfannau poblogaeth yn ne / de ddwyrain Cymru yn ogystal â'r gogledd ddwyrain a rhan o Arfordir Gogledd Cymru.

Mae Atodiad D hefyd yn dangos lleoliad Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio mewn perthynas â thir cyhoeddus gan y bydd cyfrannau uwch o dir cyhoeddus yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu adnewyddadwy â pherchenogaeth leol, a thrwy hynny, i gyfrannu at gyrraedd targedau Cymru.

4.2.2 Cyfleoedd ar gyfer cytundebau prynu pŵer / trefniadau cyflenwi uniongyrchol

Rydym wedi ystyried pob un o'r cyfleoedd canlynol ar gyfer trefniadau cyflenwi uniongyrchol a chytundebau prynu pŵer:

- Trefniadau cyflenwi uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr mawr diwydiannol;
- Trefniadau cyflenwi uniongyrchol ar gyfer grwpiau cymunedol; a
- Chyfleoedd ar gyfer cytundebau prynu pŵer rhithwir.

Daeth ein hymchwil i'r casgliad nad oes cysylltiad clir rhwng agosrwydd at ganolfan boblogaeth yn unrhyw un o'r ardaloedd hyn fel y nodir isod.

Trefniant cyflenwi uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr mawr diwydiannol

Gellir gwneud cysylltiad ffisegol a threfniant cytundebol rhwng safle cynhyrchu adnewyddadwy a defnyddiwr ynni ar raddfa fawr. Er enghraifft, mae Northumbrian Water wedi llofnodi cytundeb hirdymor yn ddiweddar â chwmni ynni adnewyddadwy Ørsted, sy'n golygu y bydd 30% o'u trydan yn cael ei gyflenwi drwy gysylltiad ffisegol â fferm wynt Racebank oddi ar arfordir Norfolk am y 10 mlynedd nesaf[17].

Fodd bynnag, nid yw agosrwydd cynlluniau at ganolfannau poblogaeth yn ysgogydd allweddol ar gyfer cytundebau o'r fath, gyda mwyafrif y cynhyrchwyr yn dymuno lleihau nifer y gwrthbartïon, gan ffafrio cytundeb ag un defnyddiwr galw uchel (e.e. gweithgynhyrchu â galw uchel am ynni) yn hytrach na chanolfan boblogaeth neu nifer o ddefnyddwyr terfynol. Mae hyn oherwydd ei fod ond yn bosibl cael un pwynt cyswllt i mewn i'r grid trydan. Felly, y prif ysgogydd wrth ystyried mireinio ar y sail hon ddylai fod presenoldeb defnyddiwr/defnyddwyr galw uchel yn hytrach na chanolfannau poblogaeth.

Trefniadau cyflenwi uniongyrchol ar gyfer grwpiau cymunedol

Mewn rhai achosion, byddai cysylltiad gwifrau preifat i gymuned yn bosibl, ond mae hyn yn tueddu i ymwneud â chynlluniau lefel gymunedol ar raddfa lai a/ neu gynhyrchu sy'n gwasanaethu cymunedau oddi ar y grid, ac nid yw'r rhain wedi'u cysylltu'n llwyr â chanolfannau poblogaeth. Mae rheolau'r farchnad ar gyfer gwerthu trydan i gwsmeriaid domestig yn golygu y bydd gwifrau preifat yn gymhleth, ac yn annhebygol o fod yn gost-effeithiol[18].

Cyfleoedd ar gyfer cytundebau prynu pŵer rhithwir

Yn achos grwpiau neu sefydliadau cymunedol lle nad yw gwneud cysylltiad cytundeb prynu pŵer ffisegol yn briodol, gellir dod i gytundeb prynu pŵer rhithwir. Gall cytundeb o'r fath gynnig cyfle i gymunedau elwa ar y cynhyrchu heb gysylltiad uniongyrchol. Gwneir hyn wrth i'r datblygwr ddod i gytundeb â'r cyflenwr lleol a gall gynnwys prisiau rhatach ar gyfer cymunedau sydd yn agos at y man cynhyrchu neu y gellir eu cysylltu â'r man cynhyrchu (e.e. prisiau rhatach pan fydd y cynllun yn cynhyrchu).

Fodd bynnag, nid oes angen unrhyw gysylltiad ffisegol rhwng y man cynhyrchu â'r defnyddiwr, ac felly, nid yw agosrwydd rhwng y man cynhyrchu â'r man lle mae'r galw yn ffactor hanfodol o ran cefnogi cysylltiadau cytundebau prynu pŵer rhithwir.

---

[17] https://orsted.co.uk/en/Media/Newsroom/News/2019/02/Orsted-and-Northumbrian-Water-Group-sign-UK-first-Offshore-Wind-Corporate-PPA

[18] Stephens Scown a RegenSW, *Local supply: options for selling your energy locally, 2ail argraffiad,* mis Mawrth 2016, https://www.stephens-scown.co.uk/wp-content/uploads/2015/07/Local-Energy-White-Parper-with-Regen-Updated-version-March-2016.pdf

4.2.3 Cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad a pherchenogaeth gymunedol

Ystyriwyd y gallai bod yn agos at ganolfannau poblogaeth gynyddu ymrwymiad cymunedau i ddatblygiadau adnewyddadwy a chreu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad ac ymgysylltiad cymunedol.

Gallai sefydliadau cymunedol ymwneud â holl berchenogaeth neu berchenogaeth rannol safleoedd ynni gwynt neu ynni solar PV. Er enghraifft, mae gan Ymddiriedolaeth Ddatblygu Fintry yn yr Alban berchenogaeth rithwir ar dyrbinau gwynt yn Fferm Wynt Earlsburn, 5km o'r pentref, gyda'r datblygwr, Falck, yn rhoi benthyciad o £2.5 miliwn i'r gymuned ar gyfer y buddsoddiad cychwynnol[19]. Pan ad-delir y swm hwn, bydd y gymuned yn dechrau gwneud elw o'r tyrbinau ac mae cytundeb o'r fath wedi arwain at gefnogaeth gref i'r datblygiad gan y gymuned leol.

Mae trefniadau gwahanol yn bodoli ar gyfer prosiectau ynni cymunedol. Ym mhentref Bethesda yng Ngogledd Cymru, sefydlwyd trefniant rhwng 100 o aelwydydd i ffurfio cwmni cydweithredol a chynllun ynni dŵr lleol. Nid oes cysylltiad ffisegol uniongyrchol rhwng y cynllun ynni dŵr a'r cartrefi. Yn hytrach, mae'r cynllun yn bwydo'n uniongyrchol i'r grid trydan ac mae cartrefi'n defnyddio tua'r un faint o drydan a gynhyrchir. Mae'r cytundeb yn golygu bod pob cartref yn talu dim ond 7c y cilowat awr am eu trydan tra bod y cynllun yn cynhyrchu, fel y dangosir gan fesurydd clyfar. Mae'r model ynni lleol hwn yn gweithio'n dda lle mae holl aelodau'r cwmni cydweithredol o fewn ardal yr un is-orsaf ac mae gwerth yn deillio o ostyngiad yn y galw.

Fodd bynnag, gallai'r buddion a welir o berchenogaeth ac ymgysylltiad cymunedol gael eu gwrthbwyso os yw datblygiad yn rhy agos at gymuned leol neu os oes effaith gronnol gan ddatblygiadau lluosog o amgylch cymuned. Bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar yr amgylchiadau sy'n benodol i'r safle a bydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â barn unigolion am y dechnoleg arfaethedig, ac effeithiau posibl y cynllun.

Er enghraifft, gellir cysylltu mwy o effaith weledol ag agosrwydd, yn enwedig wrth ystyried cynlluniau ynni gwynt ar raddfa benodol neu mewn lleoliad penodol. Mae'r potensial ar gyfer effaith weledol yn cael ei ystyried yn fras fel rhan o'r adroddiad hwn, er bod effeithiau posibl penodol ar ganolfannau poblogaeth yn debygol o fod yn ddaearyddol benodol ac yn dibynnu ar ddyluniad neu leoliad y datblygwr. Ar ben hynny, gallai lleoli tyrbinau gwynt yn agos at anheddau arwain at aflonyddwch sŵn a chysgodion symudol. Er bod y rhain yn anfanteision posibl o ran agosrwydd, fel arfer, gellir osgoi effeithiau sylweddol drwy ddylunio sensitif. Mae materion o'r fath yn llai tebygol o achosi problem gyda datblygiadau ynni solar.

Gallai cynnydd mewn perchenogaeth gan grwpiau cymunedol gyfrannu at darged Cymru o berchenogaeth leol ar un gigawat o gapasiti trydan adnewyddadwy erbyn 2030. Fodd bynnag, dim ond un opsiwn posibl ar gyfer perchenogaeth leol yw

[19] https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/181213-crynodeb-o-ymatebion-ynni-adnewyddadwy-dan-perchnogaeth-leol.pdf

perchenogaeth gan grwpiau cymunedol (gyda busnesau lleol, y sector cyhoeddus ac unigolion yn ddewisiadau amgen). Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig diffinio gosodiadau ynni 'perchenogaeth leol' fel *gosodiadau ynni a leolir yng Nghymru ac a berchnogir gan unigolyn neu unigolion neu sefydliad wedi'i berchnogi a'i leoli'n llwyr yng Nghymru neu sefydliad sydd â'u prif bencadlys yng Nghymru*[20].

Mae dwysedd uchel o dir cyhoeddus o fewn Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn ffactor arall a allai gefnogi cyflawni'r targed perchenogaeth leol. Felly, mae Tabl 4 yn dangos canran pob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio sy'n dir cyhoeddus. Mae tir cyhoeddus wedi'i fapio yn erbyn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio isod ym map 4.2 drosodd.

Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio	Canran sy'n dir cyhoeddus
1	6%
2	2%
3	12%
4	10%
5	2%
6	4%
7	2%
8	3%
9	3%
10	1%
11	6%
12	3%
13	6%
14	28%

Tabl 4: Canran pob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio sy'n dir cyhoeddus

[20] Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion; Ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol, 2018: https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/181213-crynodeb-o-ymatebion-ynni-adnewyddadwy-dan-perchnogaeth-leol.pdf *Cyrchwyd ym mis Mehefin 2019*

A3

01/05/2019 08:21:47



Eglurhad

Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio

Tir Cyhoeddus

Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F1	2019-05-01	TK	DB	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727
www.arup.com

Cleient
Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith
Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Metrau
0 9,500 19,000 38,000

Tir Mynediad Agored

Graddfa ar A3
1:800,000

Rhif y gwaith	Statws y Lluniad
263184	**I'w Gyhoeddi**

Rhif y Lluniad	Cyhoeddi
4.2	**F1**

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\Centres of Population.mxd

© Arup

4.2.4 Effaith pellter oddi wrth ganolfan boblogaeth ar golledion o linellau uwchben

Cynhaliwyd ymchwil i archwilio effaith pellteroedd amrywiol o ganolfan lle y ceir galw ar golledion o linellau. Mae'r graff yn Ffigwr 4 yn dangos sut mae colledion canrannol mewn llinell ddosbarthu'n amrywio'n uniongyrchol yn ôl y pellter o'r safle cynhyrchu i'r ganolfan lle y ceir galw. Mae'r graff hwn yn dangos y colledion disgwyliedig ar gyfer cylched 50MVA gan ddefnyddio llinell ddosbarthu 132kV fel y'i cyfrifwyd gan ddefnyddio offeryn mewnol Arup ar gyfer cyfrifo colledion o linellau. Mae colledion yn cynyddu'n gyffredinol wrth i gapasiti cylched gynyddu ac wrth i'r foltedd dosbarthu ostwng.



Ffigwr 4: Graff yn dangos y berthynas rhwng hyd ceblau dosbarthu a cholledion canrannol

Fodd bynnag, mae'r colledion hyn, a'r goblygiadau cost sy'n deillio o golli trydan, yn ymylol o gymharu â'r cynnydd mewn costau ceblau os bydd angen ceblau newydd. Mae ceblau wedi'u claddu yn costio rhwng £1,000 a £1,200 y metr[21], gyda llinellau uwchben yn costio dim ond ychydig yn llai, felly, mae er budd y cynhyrchydd bod safleoedd cynhyrchu mor agos â phosibl at y grid presennol er mwyn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â cheblau newydd. Mae'n llai pwysig bod y safle'n agos at ganolfannau lle y ceir galw neu ganolfannau poblogaeth.

4.2.5 Cyfarwyddyd o leoliadau eraill

Rydym wedi ystyried cyfarwyddyd o leoliadau eraill ar gyfer datblygiadau o gwmpas canolfannau poblogaeth.

[21] Profiad Arup o brosiectau

Mae polisi cynllunio'r Alban yn cefnogi nodi ardal o hyd at 2km o amgylch canolfannau poblogaeth mewn cynlluniau datblygu lleol, a bod ffin o'r fath yn dibynnu ar dirffurf a golygfeydd o'r anheddiad[22].

Yn y cyfamser, mae *National Planning Policy Framework*[23] y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn datgan bod yn rhaid i ddatblygiadau sy'n effeithio ar boblogaeth leol fod â chefnogaeth lawn y gymuned.

4.2.6 Casgliadau

Mae ein hymchwil yn dangos bod agosrwydd rhwng datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar a chanolfannau poblogaeth:

- Â goblygiadau cyfyngedig o ran p'un ai a ellid llunio cytundebau prynu pŵer neu drefniadau cyflenwi uniongyrchol;
- Â'r potensial i gynyddu ymgysylltiad cymunedol mewn cynlluniau, ond ar yr amod y gellir eu cydbwyso ag ystyriaeth drylwyr o'r aflonyddwch penodol i safle sy'n gallu deillio o ddatblygiad sy'n agos at anheddau; ac
- Â goblygiadau cyfyngedig o ran colledion o linellau uwchben a chostau sy'n deillio o hynny, o gymharu â chostau ceblau newydd, sy'n golygu ei bod yn bwysicach i fod yn agos at seilwaith presennol y grid.

Felly, yn adran 9, caiff Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio eu mireinio er mwyn osgoi ardaloedd trefol poblog. Fodd bynnag, o ystyried y manteision posibl, ni chaiff canolfannau poblogaeth eu diystyru'n llwyr. Yn hytrach, argymhellir datblygu canllawiau dylunio, gan nodi'n glir y dull a ffefrir ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar o amgylch canolfannau poblogaeth. Gallai agwedd unffurf ynghylch pellter asedau o ganolfannau poblogaeth rwystro ymgysylltiad cymunedol mewn datblygiadau.

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireinio

Er y byddai datblygiadau sy'n agos at ganolfannau poblogaeth yn debygol o fod yn gadarnhaol o ran cysylltiad â'r grid, ni ddylai hyn yn unig sbarduno mireinio.

Dylid ymdrin â'r effeithiau gweledol negyddol posibl sy'n deillio o amgylchynu canolfannau poblogaethau drwy gael gwared ar y rhain lle maent ar ymyl Ardaloedd Blaenoriaeth. Yn bennaf, dylid ymdrin â chanolfannau poblogaeth mewn canllawiau dylunio cysylltiedig.

[22] https://www.gov.scot/publications/scottish-planning-policy/
[23] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/779764/NPPF_Feb_2019_web.pdf

5 Cysylltiad â'r grid

5.1 Methodoleg cysylltiad â'r grid

Gwnaed dadansoddiad i gymharu'r allbwn ynni sydd ar gael o bob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio, gyda'r capasiti sydd ar gael mewn perthynas â'r grid yn caniatáu:

1. Mireinio Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio i adlewyrchu argaeledd y grid, a
2. Gwneud argymhellion ynghylch uwchraddio'r grid i gefnogi Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar.

Crynhowyd data gan y Grid Cenedlaethol, SP Energy Networks (SPEN) a Western Power Distribution (WPD) i lunio codau lliw ar gyfer cynhyrchu ychwanegol wrth gefn a lefel nam ar gyfer pob un o'u his-orsafoedd. Mae hyn yn rhoi syniad cychwynnol o'r prif leoliadau ar gyfer cysylltu â'r grid. Mae cysylltu'r rhan fwyaf o ardaloedd â'r grid yn dechnegol bosibl, ond mae ardaloedd â chapasiti cyfyngedig ar gyfer cynhyrchu ychwanegol wrth gefn a lefelau nam uchel yn llai tebygol o fod yn economaidd hyfyw.

Defnyddiwyd targedau ynni adnewyddadwy fel meincnod i roi syniad o ba ardaloedd fyddai ac na fyddai'n debygol o gefnogi defnydd a ragfynegir yn y dyfodol.

5.1.1 Allbynnau gweledol capasiti cynhyrchu ar gyfer y grid

Capasiti cynhyrchu

Rhoddwyd cod lliw coch, oren neu wyrdd i is-orsafoedd, yn dibynnu ar y capasiti sydd ar gael ar gyfer cysylltu cynhyrchu ar ôl cynhyrchu presennol a chynlluniedig. Mapiwyd y rhain yn erbyn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio er mwyn rhoi syniad lefel uchel o fannau lle mae capasiti ar gael yn y grid ar hyn o bryd. Ar gyfer data WPD a'r Grid Cenedlaethol, pennwyd lliw'r is-orsaf drwy gyfrifo canran y capasiti gwrthdro sydd ar gael ar gyfer cysylltiad gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol.

$$Capasiti\ cynhyrchu = \frac{Capasiti\ p\hat{w}er\ gwrthdro - (Cynhyrchu\ cysylltiedig\ + Cynhyrchu\ a\ gontractiwyd)}{Capasiti\ p\hat{w}er\ gwrthdro} \times 100$$

Lliwiwyd is-orsafoedd WPD a'r Grid Cenedlaethol ar sail y meini prawf canlynol:

- Cafodd is-orsafoedd â dros 25% o gapasiti cynhyrchu eu dangos yn wyrdd;
- Cafodd is-orsafoedd â 10% i 25% o gapasiti cynhyrchu eu dangos yn oren; a
- Chafodd is-orsafoedd â llai na 10% o gapasiti cynhyrchu eu dangos yn goch.

Roedd y data a dderbyniwyd oddi wrth SPEN ar gyfer grid lefel dosbarthu Gogledd Cymru'n cynnwys codau lliw ar gyfer capasiti cynhyrchu, ac er ei fod yn debygol bod y codau lliw hyn yn dilyn categorïau tebyg i'r hyn a nodir uchod, ni nodwyd yn glir sut y pennwyd y lliwiau. Mae'r mapiau i'w gweld yn Atodiad E

ac maent yn rhoi gwybodaeth lefel uchel ynghylch lle mae capasiti ar gael ar y grid.

Capasiti lefel nam

Mae angen dull deublyg i bennu lle mae capasiti grid ar gael, oherwydd, er y gall cynhyrchu ychwanegol wrth gefn fod ar gael ar gyfer ardal benodol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na chyrhaeddwyd y lefel nam ar y llinell. Felly, derbyniwyd mapiau â chodau lliw ar gyfer lefel nam oddi wrth weithredwyr rhwydweithiau dosbarthu a'r Grid Cenedlaethol ac maent yn amlygu lle mae lefel nam yn debygol o fod yn broblem ar gyfer cysylltiad â'r grid.

5.1.2 Cyfrifiadau capasiti ar gyfer y grid

Ar gyfer pob is-orsaf, cyfrifwyd y pellter i'r Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio agosaf. Cafodd is-orsafoedd sydd dros 20km o Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio eu dileu o'r dadansoddiad gan dybio y byddai'n well bob amser i gysylltu ag is-orsaf agosach. Cafodd unrhyw is-orsafoedd â llai na 10MW o gapasiti cynhyrchu eu dileu hefyd. Crynhowyd y cyfanswm cynhyrchu ychwanegol wrth gefn a oedd ar gael ar gyfer pob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio ar gyfer y grid cenedlaethol a'r grid lefel dosbarthu[24].

Yn dilyn cyngor gan y Grid Cenedlaethol ac oherwydd cymhlethdod y cyd-ddibyniaeth rhwng gwahanol lefelau seilwaith y grid, nid oedd modd cyfrifo'r capasiti cynhyrchu sydd ar gael ar gyfer pob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio. Felly, rhagdybiwyd capasiti gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu fel y lleiafswm capasiti sydd ar gael ar gyfer Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt a rhagdybiwyd capasiti gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu ynghyd â chapasiti'r Grid Cenedlaethol fel yr uchafswm capasiti sydd ar gael.

Cymharwyd isafswm ac uchafswm capasiti'r grid sydd ar gael â'r ynni sydd ar gael o bob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio, gan ragdybio dosbarthiad cytbwys o 4:1 o ran datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar PV ar draws yr holl Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio er mwyn darparu digon o drydan i gyrraedd targed ynni adnewyddadwy 2030. Mae'r gymhareb 4:1 yn cyfrif am y ffaith nad oedd cyfrifiadau ynni ar gyfer pob Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn ystyried topograffi'r tir[25], sy'n golygu y bydd ardaloedd yn bodoli lle mae ynni solar yn annhebygol o fod yn ddeniadol yn dechnegol ac yn ariannol.

5.2 Canlyniadau cysylltiad â'r grid

Mae canlyniadau dadansoddiad capasiti'r grid yn dangos, er mwyn cyrraedd targedau ynni adnewyddadwy 2030, bod gan Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 4, 5 ac 14 gapasiti cynhyrchu ychwanegol wrth gefn sylweddol i gwrdd

[24] Gan nad oedd capasiti cynhyrchu ar gael mewn data a ddarparwyd gan SPEN ac nid oedd modd ymgysylltu, amcangyfrifodd Arup y cynhyrchu ychwanegol wrth gefn sydd ar gael ar gyfer is-orsafoedd SPEN. Cyflwynir manylion y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu cynhyrchu ychwanegol wrth gefn SPEN yn Atodiad E.

[25] Byddai angen gwneud hyn ar lefel benodol i safle a bydd angen modelu a dadansoddi manwl. Ni fyddai cynnal y lefel hon o fodelu ar lefel genedlaethol yn bosibl

â'u cyfraniad i'r targed os rhagdybir cynhyrchu ychwanegol wrth gefn y gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu yn unig. Os dangosir bod cynhyrchu ychwanegol wrth gefn y gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu a'r Grid Cenedlaethol sydd ar gael drwy fodelu rhwydwaith yn weithredol, yna ni fyddai angen gwelliannau i seilwaith y grid yn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 2, 3, 4, 5, 12 ac 14 iddynt gwrdd â'u cyfran o'r targed ynni adnewyddadwy. Dangosir canlyniadau llawn ar gyfer y dadansoddiad hwn yn Atodiad E.

Er bod llawer o sbardunau a chymhellion ar gyfer datblygu adnewyddadwy yng Nghymru ar wahân i darged ynni adnewyddadwy 2030, mae'r targed hwn yn rhoi dangosydd defnyddiol yngylch pa Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar y dylid eu datblygu gyntaf.

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireinio

Ni ddylid mireinio Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar ar sail argaeledd y grid, gan na fydd hyn yn aros yr un fath dros ystod oes y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylid blaenoriaethu datblygiadau yn gyntaf mewn Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar lle nad yw capasiti'r grid a lefel nam yn ffactorau cyfyngol.

6 Mynediad i gerbydau

6.1 Methodoleg mynediad i gerbydau

Mae map yn dangos lleoliad Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio mewn perthynas â seilwaith ffyrdd allweddol Cymru ar gael yn Atodiad F. Defnyddiwyd y map hwn i gynnal adolygiad lefel uchel o'r rhwydwaith cefnffyrdd. Diben y dadansoddiad hwn oedd nodi unrhyw bwyntiau lle'r oedd y seilwaith ffyrdd sy'n bodoli yn cyfyngu mynediad i Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar ar gyfer gosod technolegau Ynni Gwynt ac Ynni Solar.

6.2 Canlyniadau mynediad i gerbydau

O'r dadansoddiad a gynhaliwyd, lluniwyd y tabl yn Atodiad F, sy'n rhoi sylwadau ar rwydweithiau sylfaenol ac eilaidd, agosrwydd at borthladdoedd, ac aneddiadau yn yr Ardal Flaenoriaethol i'w Mireinio. Ni nodwyd unrhyw fannau cyfyng ar gyfer unrhyw un o'r ardaloedd blaenoriaeth, fodd bynnag, mae rhai o'r ardaloedd yn cynnwys aneddiadau ar hyd y rhwydwaith ffyrdd eilaidd fel y nodir yn Atodiad F.

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireinio

Nid ydym yn argymell mireinio Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio ar sail mynediad i gerbydau, ar y lefel hon o ddadansoddiad cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn argymell cynnal astudiaethau trafnidiaeth manwl wrth ystyried safleoedd penodol.

7 Gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau

7.1 Methodoleg gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau

Derbyniwyd ffeiliau ffurf ("shapefiles") oddi wrth CNC sy'n nodi lleoliad:

1. Ardaloedd lle ceir aml-fantais o greu coetiroedd, rhostiroedd a gwlyptiroedd.
2. Mannau allweddol ar gyfer bioamrywiaeth.

Cafodd y ffeiliau ffurf hyn eu plotio yn erbyn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio i greu'r mapiau a ddangosir yn Atodiad G. Archwiliwyd y mapiau hyn yn ofalus gan alluogi'r sylwadau a wneir yn Adran 0.

7.2 Canlyniadau gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau

Map 7.1: Gwasanaethau a chydnerthedd ecosystemau ac ardaloedd blaenoriaeth: Aml-fanteision presenoldeb a chreu coetiroedd, rhostiroedd a gwlyptiroedd

- Ar y cyfan, ymddengys bod glaswelltiroedd a gwlyptiroedd craidd presennol yn bodoli y tu allan i'r ardaloedd blaenoriaeth. Yr eithriadau yw:
  - canol Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 3, sydd ag ardal fawr o laswelltir craidd ac ardal lai o wlyptir.
  - Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 5 ac 8, sydd ag ardaloedd mawr o laswelltir craidd.
  - Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 14, sydd ag ardaloedd o laswelltir, gwlypdir a choetir.
  - yn ogystal, mae Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 2 yn gyfagos i ardal fawr o laswelltir craidd.
- Mae coetiroedd craidd yn bresennol ym mhob ardal flaenoriaeth.
- Mae pob Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio yn addas ar gyfer aml-fanteision plannu coetiroedd a chreu rhostiroedd glaswellt.
- Mae ardaloedd sy'n addas ar gyfer aml-fanteision creu gwlyptiroedd yn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 14 a 3.

Map 7.2: Mannau allweddol ar gyfer bioamrywiaeth

- Mae mannau allweddol ar gyfer bioamrywiaeth a chysylltedd wedi'u lleoli yn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 2, 3, 8, 13 a 14. Mae Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 4, 6, 9, 11 a 12 wedi'u lleoli'n gyfagos i fannau allweddol a dylid eu hasesu fel mannau sensitif.
- Mae ardaloedd o botensial uchel ar gyfer creu ecosystemau ar gyfer nwyddau cyhoeddus wedi'u lleoli yn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 3, 9, 11 a 14.

Ceir rhai ardaloedd ag ychydig bach o botenial neu botensial is mewn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio eraill.

Goblygiadau dadansoddiad Natura 2000

Yn gyfochrog â'n hastudiaeth, cynhaliwyd dadansoddiad i gefnogi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol gan Arcadis[26].

Yn ôl y dadansoddiad hwn, sy'n dangos agosrwydd safleoedd Natura 2000 at yr ardaloedd blaenoriaeth, mae pob un o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio yn agos iawn at safleoedd Natura 2000, yn enwedig Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 1, 2, 3, 6, 8, 12, 13 a 14. Mae'r holl Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio yn cynnwys clustogfeydd ar gyfer y gwahanol safleoedd, er bod Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 5, 6, 7, 8 a 10 yn cynnwys llai na'r lleill.

Fel y nodwyd gan Arcadis, mae goblygiadau'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig o fewn yr Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio yn dibynnu ar y dynodiad; y rhywogaethau a'r nodweddion a warchodir.

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireinio

Ar sail cyngor gan CNC, ni ddylid defnyddio mapiau mannau allweddol o ran gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth i ddylanwadu ar y mireinio. Mae'r wybodaeth hon yn fwy addas ar gyfer camau diweddarach y broses gwneud penderfyniadau, gan ddefnyddio mapio datganiad ardal ar raddfa leol.

Ar sail y dadansoddiad a wnaed o safleoedd N2K ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, mae Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio wedi'u mireinio i eithrio Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, lle bynnag y bo modd. Dylid mynd i'r afael ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig bach yn ganolog yn yr ardaloedd blaenoriaeth trwy ganllawiau dylunio.

[26] Arcadis ar gyfer Llywodraeth Cymru, *Wales NDF – Implications for the Natura 2000 network of Priority Areas for Renewables Development across Wales*, mis Mawrth 2019

8 Yr amgylchedd hanesyddol

8.1 Methodoleg yr amgylchedd hanesyddol

Ar ôl ymgynghori â Cadw[27], cafodd Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio eu plotio yn erbyn rhestr y DU o asedau hanesyddol a luniwyd yn unol ag Erthygl 1 Confensiwn yr Hâg ar Ddiogelu Eiddo Diwylliannol mewn achos o Wrthdaro Arfog (1954). Mae'r rhestr yn cynrychioli asedau sydd o'r fath arwyddocâd diwylliannol fel bod angen eu diogelu mewn achos o ryfel. Yn ogystal, cafodd Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig y diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru ei gynnwys. Mapiwyd y rhain â chlustogfeydd 3km a 5km yn dilyn trafodaeth â Cadw. Mae cyngor Cadw'n gwahaniaethu rhwng triniaeth Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar o ran polisi. Os ydynt i'w dyrannu fel safleoedd datblygu, byddent yn dymuno gweld asedau treftadaeth yn cael eu diogelu gyda chlustogfa 5km. Os cânt eu nodi fel ardaloedd chwilio, mae Cadw'n nodi y byddai clustogfa 3km yn briodol.

Mapiwyd y Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig hefyd heb glustogfeydd.

8.2 Canlyniadau'r amgylchedd hanesyddol

Mae'r map clustogfeydd 3km (gweler Atodiad H, map 8.1) yn dangos gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr asedau treftadaeth a glustogir ac Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 2 a 4. Yn Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 2, mae hyn yn cynnwys y Safle Treftadaeth y Byd ymgeisiol, y mae Cadw wedi cynghori y gallai effeithio ar y cais. Mae gan bob Ardal Flaenoriaeth rai asedau o gwmpas ymylon eu ffiniau. Mae Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig yn bodoli yng nghanol Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio 3 a 14.

Mae'r map clustogfeydd 5km (gweler Atodiad H, map 8.2) yn dangos gorgyffwrdd pellach â'r holl Ardaloedd Blaenoriaeth.

Ystyriwyd y gwahaniaeth posibl mewn effaith rhwng datblygiadau ynni gwynt a datblygiadau ynni solar adnewyddadwy, a nodwyd ardaloedd a fyddai'n fwy addas ar gyfer ynni solar, fel y nodir yn adran 9.

Defnyddiwyd y map gyda'r clustogfeydd 3km yn helaeth i fireinio'r ardaloedd blaenoriaeth, fel y nodir yn fanylach yn adran 9.

Crynodeb o'r goblygiadau i'w mireinio

Dylid mireinio Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio i osgoi ardaloedd sydd wedi'u mapio fel rhan o'r asesiad hwn. Mae'n bosibl bod rhai gwahaniaethau bach yn bodoli rhwng ynni gwynt ac ynni solar, a dylid nodi'r rhain drwy fireinio.

[27] Ymgynghoriadau ar y ffôn a gynhaliwyd gan Arup a Cadw ar 27 Mawrth a 24 Ebrill 2019.

9 Mireinio'r ardaloedd blaenoriaeth

9.1 Methodoleg

Rhoddir crynodeb isod o'r fethodoleg at gyfer mireinio'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar ac fe'i nodir yn fanylach yn yr adran hon.



9.2 Targedau ynni adnewyddadwy ac ardaloedd Cam 1

Cynhaliwyd dadansoddiad i bennu i ba raddau y byddai angen datblygu mewn Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy ar gyfer 2030. Diben y dadansoddiad hwn oedd penderfynu a oedd yr ardaloedd a grëwyd yn ddigon mawr ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy tebygol yn y dyfodol, a rhoi syniad lefel uchel iawn o ran faint y dylid mireinio'r ardaloedd.

Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn gan ddefnyddio'r galw am drydan a ragfynegir ar gyfer 2030 gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd[28]. Hwn oedd yr uchaf o ystod o ffigyrau defnydd trydan gan ddefnyddio ystod o ffynonellau gwahanol, ac felly gellir ei ystyried fel yr achos gwaethaf. Rhagdybiwyd y bydd lefel cynhyrchu ynni adnewyddadwy presennol yn parhau yn y dadansoddiad hwn oherwydd mae *Targedau ynni – papur tystiolaeth*[29] yn dangos bod y targed o 70% wedi'i osod ar sail allosod cynhyrchu presennol. Er mwyn i'r rhagdybiaeth hon fod yn wir, pan fydd asedau ynni adnewyddadwy presennol yn cyrraedd diwedd eu hoes weithredol, byddai angen datblygiad ynni adnewyddadwy â chapasiti cynhyrchu ynni cyfatebol neu uwch i'w disodli.

Cyfrifwyd cyfanswm y capasiti cynhyrchu ynni gwynt ac ynni solar sydd ar gael ar gyfer pob ardal gan ddefnyddio ArcGIS. Dangosodd y dadansoddiad hwn y gallai'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar fodloni targedau ynni adnewyddadwy yn hawdd, hyd yn oed ar ôl mireinio.

[28] https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/171009-energy-targets-evidence-paper-cy.pdf
[29] https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/171009-energy-targets-evidence-paper-cy.pdf

9.3 Dadansoddiad o dystiolaeth ar bynciau allweddol

Fel y nodir yn adrannau 3 i 8, dadansoddwyd ac adolygwyd y dystiolaeth ar draws meysydd pynciau allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

9.4 Croeswirio ag Ardaloedd Chwilio Strategol TAN 8

Gwnaed croes-gymhariaeth i gymharu Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Cam 1 â'r Ardaloedd Chwilio Strategol a nodir yn TAN 8. Mae Atodiad I yn dangos Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Cam 1 a'r Ardaloedd Chwilio Strategol wedi'u troslunio ar yr un map. Mae'r map hwn yn dangos bod Ardaloedd Chwilio Strategol wedi'u lleoli'n bennaf o fewn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio gydag ychydig o eithriadau. Fel y nodir isod, ailgyflwynwyd rhai o ardaloedd TAN 8 i Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt ar y cam hwn yn y broses fireinio, fodd bynnag, cafodd llawer o ardaloedd eu mireinio ymhellach am y rhesymau a drafodir yn Adran 9.6.2.

- Mae ymyl ddwyreiniol Ardal Chwilio Strategol A wedi'i lleoli y tu allan i Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 3 yng Ngham 1. Mae amgylchedd hanesyddol cofrestredig yn ymestyn dros lawer o'r Ardal Chwilio Strategol hon. Mae'r Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i mireinio wedi'i hymestyn i gynnwys rhan o'r Ardal Chwilio Strategol hon gan osgoi'r dirwedd hanesyddol.
- Nid yw'r rhan fwyaf o Ardal Chwilio Strategol B wedi'i lleoli o fewn unrhyw un o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio Cam 1. Mae'r ardal hon yn cynnwys cyfyngiadau amrywiol Cam 1 gan gynnwys ardaloedd gweledol synhwyraidd uchel ac eithriadol LANDMAP, ardaloedd mynediad agored ac ardaloedd biosffer UNESCO. Mae'r Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i hymestyn i gynnwys rhan o'r Ardal Chwilio Strategol hon, fodd bynnag, nid yw'r Ardal Chwilio Strategol lawn wedi'i chynnwys oherwydd ei hagosrwydd at Barc Cenedlaethol Eryri.
- Mae rhan fach o Ardal Chwilio Strategol C heb ei chynnwys yn Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 6. Mae gan ymyl orllewinol yr Ardal Chwilio Strategol hon ryngweledded uchel o Fryniau Swydd Amwythig ac felly nid yw wedi'i hailgynnwys. Fodd bynnag, mae Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 6 wedi'i hymestyn i gynnwys ymyl ogledd-ddwyreiniol Ardal Chwilio Strategol C.
- Nid yw Ardal Chwilio Strategol D wedi'i lleoli o fewn unrhyw un o'r Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio. Mae'r ardal hon yn cynnwys cyfyngiadau amrywiol Cam 1, gan gynnwys dosbarthiad gweledol synhwyraidd uchel ac eithriadol LANDMAP, tir mynediad agored ac ardal biosffer UNESCO. Ar ben hynny, mae adrodd gan Lywodraeth Cymru yn

dangos nad oes unrhyw gynlluniau wedi'u cyflwyno ar gyfer yr ardal hon[30]. O ganlyniad, ni chynigir unrhyw ddiwygiadau i ystyried yr ardal hon eto.

- Mae Ardaloedd Chwilio Strategol E ac F wedi'u cynnwys yn bennaf mewn Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio ac mae ardal 14 wedi'i hymestyn i gynnwys rhan fach o Ardal Chwilio Strategol E sydd wedi'i lleoli y tu allan i'r ffin mewn ardaloedd Cam 1. Cafodd rhannau o Ardal Chwilio Strategol F eu dileu o'r ardal wedi'i mireinio am y rhesymau a esbonir yn Adran 9.6.2.
- Mae Ardal Flaenoriaeth i'w Mireinio 11 wedi'i hymestyn i gynnwys y rhan fach o Ardal Chwilio Strategol G a oedd ar goll o ardaloedd Cam 1.

Datblygwyd TAN 8 drwy ystyried cyfyngiadau a chyfleoedd o fewn ardaloedd gwahanol. Yn yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn ystod Cam 1 y prosiect hwn, cytunwyd na ddylai ardaloedd blaenoriaeth gael eu cyfyngu gan ystyriaethau technegol megis cyflymder gwynt a thopograffi tir gan nad oedd hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd i ddatblygwyr addasu wrth i dechnoleg newid dros amser.

Er mwyn cael parhad o'r safbwynt polisi o TAN 8, cynigir bod yr Ardaloedd Blaenoriaeth i'w Mireinio yn cael eu hymestyn i gynnwys Ardaloedd Chwilio Strategol, lle bynnag nad yw'r cyfyngiadau'n fwy na'r rhai ar gyfer ardaloedd eraill a gynhwysir yn yr ardaloedd blaenoriaeth diwygiedig.

9.5 Gweithdai â Llywodraeth Cymru, CNC ac arbenigwyr Arup

Cynhaliwyd gweithdy â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a CNC ar 12 Ebrill 2019 i gyflwyno gwaith hyd hynny ac i dderbyn adborth ar fapiau a luniwyd bryd hynny. Mae cofnodion o'r gweithdy hwn i'w cael yn Atodiad I.

Yn dilyn y gweithdy hwn, cynhaliwyd gweithdai mewnol gyda thîm arbenigwyr Arup i adolygu'r dadansoddiadau a'r dystiolaeth ar draws y ffrydiau gwaith i ddod â hyn at ei gilydd mewn cyfres o ardaloedd blaenoriaeth wedi'u mireinio.

9.6 Canlyniadau

9.6.1 Ardaloedd Blaenoriaeth wedi'u Mireinio ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar

Mae Ardaloedd Blaenoriaeth wedi'u Mireinio ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt wedi'i nodi ym map 10.1 drosodd.

[30] Llywodraeth Cymru, *Cronfa Ddata TAN 8 2018 – Adolygiad o Ddatblygiadau Ffermydd Gwynt ar y Tir,* https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/crynodeb-o-ffermydd-gwynt-ar-y-tir-2018.pdf

A3

09/08/2019 14:57:41



Eglurhad

- Ardaloedd blaenoriaeth i'w mireinio
- Ardol Chwillio Strategol TAN8
- Ardaloedd blaenoriaeth wedi'u mireinio ynni gwynt ac ynni solar
- Ardaloedd blaenoriaeth wedi'u mireinio ynni solar

Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2018

Cyhoeddi	Dyddiad	Gan	Gwiriwyd	Cymeradwywyd
F6	2019-06-14	FH	CE	AC

ARUP

4 Pierhead Street
Caerdydd CF10 4QP
(Ff) +442920473727 (Ffacs) +442920473727
www.arup.com

Cleient

Llywodraeth Cymru

Teitl y gwaith

Asesiad o botensial ynni gwynt ac ynni solar ar y tir yng Nghymru – Cam Dau

Metres

0 10,000 20,000 40,000

Ardaloedd Blaenoriaeth wedi'u Mireinio, Ardaloedd Blaenoriaeth Gwreiddiol i'w Mireinio a TAN 8

Graddfa ar A3
1:800,000

Rhif y gwaith
263184-00

Statws y Lluniad
I'w Gyhoeddi

Rhif y Lluniad
10.1

Cyhoeddi
F7

\\Global\Europe\Bristol\Jobs\263xxx\263184-00\4.30_Drgs\2_GIS\04_Map Documents\Phase 2\RefinedPAREs_All.mxd

© Arup

9.6.2 Sail resymegol ar gyfer Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar

Mae crynodebau penodau drwy gydol yr adroddiad hwn yn rhoi manylion ynghylch sut mae pob elfen o'r ymarfer Cam 2 wedi dylanwadu ar fireinio.

Esbonnir rhesymau pellach dros fireinio sy'n benodol i Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar unigol yn Tabl 5. Cyflwynir map llawn o'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar diwygiedig yn Atodiad J.

Cafodd Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 3 yng Ngham 1 ei rhannu'n ddwy ardal yn ystod y gwaith mireinio, a daeth rhan fwyaf deheuol yr ardal yn Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 15 wedi'i mireinio, gyda phob ardal arall yn cadw eu rhifau Cam 1.

Tabl 5: Y sail resymegol dros ardaloedd blaenoriaeth wedi'u mireinio

Ardal Flaenoriaeth at gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar	Sail resymegol dros adolygu
1	• Mae AHNE Ynys Môn o amgylch yr ardal hon yn bwysig oherwydd y golygfeydd allan ar draws y môr yn hytrach nag i mewn i'r ardal flaenoriaeth. Ar y sail hon, rydym wedi rhoi llai o bwys i'r dadansoddiad rhyngweledded. Serch hynny, mae'r Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i mireinio i gynnwys clusyogfa o amgylch yr AHNE. • Mae ymyl ddeheuol yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i lleihau i leihau'r effaith ar barciau a gerddi Gradd 1 a henebion o dan warcheidiaeth. • Yn wreiddiol, roedd yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn cynnwys siâp toesen o amgylch anheddiad yng nghanol yr ardal. Fodd bynnag, ailgyflwynwyd yr ardal yn yr Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar er cysondeb â chanolfannau poblogaeth eraill. • Mae rhan o'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar i'r de o ffordd yr A55 wedi'i dynodi ar gyfer ynni solar yn unig oherwydd sensitifrwydd yr aber ym Malltraeth a'r dirwedd lefel yr arfordir.
2	• Mae rhan uchaf yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i dileu oherwydd lefel uchel o weledded o Barc Cenedlaethol Eryri, oherwydd Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte ac oherwydd safle treftadaeth y byd arfaethedig y diwydiant llechi. • Mae ardal ddeheuol yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i thocio i leihau'r effaith ar adeiladau rhestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig Gradd 1.

Ardal Flaenoriaeth at gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar	**Sail resymegol dros adolygu**
	• Ystyrir bod gweddill yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn addas ar gyfer ynni solar yn unig o ystyried ei bod yn ardal fach ac wedi'i lleoli rhwng dwy ardal ddynodedig. • Mireiniwyd yr ardal hon er mwyn cadw i'r de-orllewin o ffordd yr A487 oherwydd golygfeydd tuag at Eryri o'r ffordd.
3	• Mae ardal fawr o dirwedd gofrestredig o fewn yr ardal flaenoriaeth hon, sydd wedi arwain at rannu'r Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn ddwy. • Mae'r Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i mireinio ar gyfer ynni gwynt yn unig ar hyd yr ymyl orllewinol er mwyn dileu ardaloedd o weledded uchel o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn wedi arwain at rai ardaloedd ychwanegol sy'n addas ar gyfer ynni solar. • Mae ymylon yr Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'u dileu i gyfrif am y clustogfeydd o amgylch adeiladau rhestredig. • Mae'r ardal wedi'i hymestyn i'r dwyrain i gynnwys pob rhan o Ardal Chwilio Strategol A TAN 8.
4	• Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i thocio i eithrio'r glustogfa ar gyfer asedau treftadaeth cyfagos. • Oherwydd yr ardal ddaearyddol fach a gwmpesir gan yr ardal flaenoriaeth hon, a gweledded o Fryniau Clwyd, fe'i dynodwyd ar gyfer ynni solar yn unig.
5	• Mae ffin Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 5 wedi'i gwthio'n ôl er mwyn osgoi parciau a gerddi gradd 1 ac adeiladau rhestredig. • Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i hymestyn i gynnwys rhan o Ardal Chwilio Strategol B TAN 8. Fodd bynnag, o ystyried y newid ym maint a graddfa tyrbinau gwynt ers y dadansoddiad ar gyfer TAN 8, mae clustogfa addas (tua 4km) wedi'i chaniatáu er mwyn lleihau effaith weledol yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar o Eryri. • Mae ffin yr ardal hon wedi'i thynnu'n ôl er mwyn osgoi Llandrindod.
6	• Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i hymestyn i gynnwys Ardal Chwilio Strategol C TAN 8 i'r gogledd-orllewin. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys y rhan o'r Ardal Chwilio Strategol hon i'r dwyrain o Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 6 oherwydd agosrwydd yr ardal hon at Fryniau Swydd Amwythig (a gweledded oddi yno). • Prin yw'r gweledded yn yr ardal hon o Fannau Brycheiniog ac felly nid yw

Ardal Flaenoriaeth at gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar	**Sail resymegol dros adolygu**
	wedi'i mireinio ar y sail hon. • Mae cangen dde-ddwyreiniol yr ardal flaenoriaeth hon, yn agos at Fryniau Swydd Amwythig, wedi'i dileu oherwydd cyfuniad o weledd o Fryniau Swydd Amwythig a'r clustogfeydd o amgylch parciau a gerddi hanesyddol Gradd 1. • Mae pen gogleddol eithaf ac ymyl dde-orllewinol yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'u dileu oherwydd presenoldeb parciau a gerddi hanesyddol Gradd 1.
7	• Mae Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 7 wedi'i lleihau i eithrio'r clustogfeydd o amgylch adeiladau rhestredig gradd 1.
8	• Mae Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 8 wedi'i lleihau i ddileu ardaloedd o weledd uchel o Fannau Brycheiniog yn y de. • Mae Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 8 wedi'i lleihau oherwydd heneb o dan warcheidiaeth yn y gogledd. • Dylid nodi bod Ardal Hyfforddiant Milwrol Epynt wedi'i chynnwys yn yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar a bydd angen gwybodaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i gynghori ar hyfywedd datblygu ynni adnewyddadwy yn yr ardal hon.
9	• Mae Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 9 wedi'i mireinio i eithrio'r clustogfeydd o amgylch adeiladau rhestredig gradd 1.
10	• Mae'r ardal ar ymyl orllewinol yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i lleihau i eithrio'r clustogfeydd o amgylch adeiladau rhestredig gradd 1. Budd ychwanegol hyn yw na fydd y ffin mor agos at yr arfordir a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. • Mae'r Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i lleihau hefyd o amgylch yr ymylon tua'r dwyrain a'r de i osgoi ardaloedd o fewn 3km i adeiladau rhestredig gradd 1. • Mae'r Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i mireinio i'r tir o'r A487 i osgoi datblygiad fferm wynt yn yr ardal arfordirol.
11	• Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i lleihau yn y gogledd-orllewin i leihau'r effaith weledol o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac i eithrio clustogfeydd o amgylch asedau treftadaeth. • Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i hymestyn i'r gogledd i gynnwys ymyl uchaf Ardal Chwilio Strategol G. • Mae ardal fechan i'r de-ddwyrain wedi'i dileu, gan ei bod yn cynnwys Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig, ac mae ardaloedd i'r de wedi'u dileu i

Ardal Flaenoriaeth at gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar	Sail resymegol dros adolygu
	ganiatáu am glustogfeydd 3km o amgylch asedau hanesyddol. • Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i hymestyn ychydig i'r de-orllewin i gynnwys ardal a arferai fod yn Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 12 gan fod yr ardal honno bellach wedi'i dynodi'n ardal ynni solar yn unig.
12	• Mae Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 12 wedi'i lleihau oherwydd asedau hanesyddol ac mae wedi'i dynodi'n ardal ynni solar yn unig oherwydd y lefelau uchel o ryngwelededd rhwng dwy ran Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
13	• Mae Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar 13 wedi'i dynodi'n ardal ynni solar yn unig oherwydd gwelededd yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar o AHNE Gŵyr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. • Mae ymylon yr Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'u torri i ffwrdd lle maent yn gorgyffwrdd â chlustogfeydd o amgylch asedau hanesyddol. • I'r gogledd-ddwyrain, mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i symud yn ôl i ddileu canolfan boblogaeth. Budd ychwanegol yn sgil hyn yw dwyn yr Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn ôl o ymyl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. • Mae'r bwlch yn y canol wedi'i gau. Mae lleihau'r ardal o'r gogledd wedi dileu'r cyfyngiad sefydlog mwyaf yn y canol, ac mae'r cyfyngiadau amrywiol yn cyd-fynd ag ardaloedd blaenoriaeth eraill. Mae hyn yn galluogi ardal fwy cydgyffyrddol. • Mae'r ardal wedi'i thynnu'n ôl o lethrau'r llwyfandir uwchlaw Porth Tywyn, llethrau sy'n wynebu tua'r de, i leihau cymaint â phosibl yr effeithiau ar olygfeydd arfordirol o Aber Afon Llwchwr.
14	Hon oedd yr ardal flaenoriaeth fwyaf a mwyaf cymhleth. Gwnaed diwygiadau ac ystyriaethau gwahanol ar gyfer datblygiad ynni gwynt ac ynni solar. **Y ddau** • Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i lleihau fel nad yw'n cynnwys yr ardal o amgylch Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon mwyach. Mae'r Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig wedi'u dileu. • Lle y bo'n bosibl, mae canolfannau poblogaeth wedi'u symud fel eu bod fymryn y tu allan i'r ardal flaenoriaeth. I'r gogledd, mae hyn wedi arwain at ychydig o wahanu rhag ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. • Mae'r clustogfeydd o amgylch parciau a gerddi hanesyddol wedi'u dileu o'r

Ardal Flaenoriaeth at gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar	Sail resymegol dros adolygu
	ardaloedd blaenoriaeth, gan fod y rhain wedi'u dynodi yn aml am eu golygfeydd. **Gwynt** • Mae'r ffin ar gyfer datblygu ynni gwynt yng ngogledd yr Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'i mireinio yn unol â TAN 8 ac Ardaloedd Chwilio Strategol E ac F i osgoi datblygiad ynni gwynt hyd at ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae hyn yn dileu canolfannau poblogaeth ac ardaloedd o weledded uwch. • Mae ardaloedd â gweledded o fwy na 50% o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'u dileu o'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar, gyda dwy ardal allweddol ar gael ar gyfer datblygiad ynni gwynt o ganlyniad. **Solar** • Ystyrir bod de'r Ardal Flaenoriaeth hon ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn fwy addas ar gyfer datblygiad ynni solar nag ynni gwynt oherwydd natur y dirwedd a'r ardal boblog tu hwnt. Mae adeiladau rhestredig gradd 1 a'u clustogfeydd wedi'u cynnwys yn yr ardal hon. Bydd angen Canllawiau Dylunio i alluogi Arfordir Treftadaeth Morgannwg i gadw ei chymeriad arbennig, a darparu ar gyfer datblygiad ynni solar ar yr un pryd.

9.7 Ardaloedd eithriedig

Mae ardaloedd wedi'u dewis yn Ardaloedd Blaenoriaeth ar sail grwpiau o *ardaeloedd o'r cyfleoedd mwyaf* a nodwyd yng ngham 1. Fel y nodwyd eisoes, roedd hwn yn ddull lefel uchel seiliedig ar feini prawf, wedi'i ddatblygu gyda Llywodraeth Cymru. Ni fydd yn cynnig safbwynt terfynol ynghylch ?? unigol penodol. Y tu allan i'r Parciau Cenedlaethol ac AHNE, mae'r ardaloedd hynny sydd wedi'u heithrio wedi cael eu heithrio oherwydd nifer o gyfyngiadau amrywiol. Mae'r rhesymau dros eithrio ardaloedd mawr o Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'u hamlinellu isod:

- **Sir Fynwy** Roedd ardal Sir Fynwy yn cynnwys cwmpas uchel iawn o ardaloedd gweledol synhwyraidd uchel ac eithriadol LANDMAP, ynghyd â chwmpas uchel o dir wedi'i ddosbarthu'n dir amaethyddol.
- **Mynyddoedd Cambria** Mae Mynyddoedd Cambria yn cynnwys nifer o ardaloedd mynediad agored, ardaloedd gweledol synhwyraidd uchel ac eithriadol LANDMAP yn ogystal ag ardaloedd tirwedd hanesyddol a mawn dwfn.
- **Yr ardal o amgylch Coedwig Tywi** Mae'r ardal o amgylch Coedwig Tywi yn cynnwys llawer iawn o dir mynediad agored ac ardaloedd tirwedd hanesyddol.

- **Yr ardal o amgylch Mynydd y Gwynt** Mae'r ardal o amgylch Mynydd y Gwynt yn cynnwys canran uchel o ardaloedd gweledol synhwyraidd uchel ac eithriadol LANDMAP a thir mynediad agored.
- **Ardal Chwilio Strategol B** Mae gan y rhan o Ardal Chwilio Strategol B TAN 8 sydd wedi'i heithrio o'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar ryngweledded uchel o Barc Cenedlaethol Eryri.
- **Ardal Chwilio Strategol D** Mae Ardal Chwilio Strategol D TAN 8 yn cynnwys cyfrannau uchel tu hwnt o ardaloedd gweledol synhwyraidd uchel ac eithriadol LANDMAP, tir mynediad agored ac ardaloedd biosffer UNESCO.

10 Goblygiadau ac argymhellion

10.1 Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar

O'r astudiaeth hon, mae'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar wedi'u mireinio i gynhyrchu'r ardaloedd a gyflwynir yn Atodiad J.

Cyflwynir y rhain fel ardaloedd lefel uchel, ar lefel genedlaethol. Nid oes bwriad iddynt gyflwyno cywirdeb ar lefel safle. Dylid eu cyflwyno ar raddfa nad yw'n fanylach nag 1:250,000.

10.2 Canllawiau polisi a dylunio

Mae Arup yn argymell y dylid datblygu canllawiau polisi a dylunio cadarn i gyd-fynd â'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Deellir bod Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio tuag at bolisi ar dair lefel:

- Parciau Cenedlaethol ac AHNE, lle nad yw datblygiadau gwynt a solar ar raddfa fawr ar y tir yn dderbyniol;
- Yr ardaloedd blaenoriaeth, lle y cefnogir datblygiadau gwynt a solar ar raddfa fawr; ac
- Ardaloedd eraill, lle y gallai datblygiad fod yn dderbyniol, ar sail meini prawf allweddol.

